

Cofio Cyfraniad John Pugh



Cyflwyno Tarian Goffa John Pugh gan ei weddw Margaret i gapten Pontypridd, Cally James

Mae dechrau'r tymor newydd wedi bod yn gyfnod hynod lwyddiannus i Glwb Rygbi Pontypridd, yn diweddu mis Hydref ar frig tabl Uwch-Adran Admiral gyda pum buddugoliaeth yn olynol, a'r unig glwb yn parhau gyda record 100% yn y gystadleuaeth.

Roedd dydd Sadwrn y 19eg o Hydref yn un da i Bontypridd gyda'r haul yn tywynnu ar faes chwarae Prifysgol Met Caerdydd yng Nghyncoed, a thyrfa sylweddol wedi dod ynghyd i wyllo gêm gynghrair y myfyrwyr yn erbyn Ponty. Roedd hi hefyd yn gyfle i ddathlu bywyd un a gyfrannodd yn sylweddol tuag at barhad a llwyddiant y coleg, ac a gyfrannodd hefyd i Glwb Rygbi Pontypridd, sef John Pugh.

Bu John yn hyfforddwr a gweinyddwr gyda'r Coleg am gyfnod o ddeng-mllynedd-ar-hugain a mwy ac fe'i anrhydeddwyd trwy ei wneud yn Llywydd Oes yn 2003. Bu'n chwaraewr o fri, yn bennaf fel blaen-asgellwr ac hefyd yn gallu chwarae fel canolwr, yn cynrychioli ei glwb lleol Amman United ac hefyd Maesteg, ac wedi chwarae i Bontypridd yn ystod tymor 1972-73.

Yn dilyn ei farwolaeth yn 2023 penderfynnodd Prifysgol Met Caerdydd gyflwyno Tarian Goffa John Pugh mewn gornest benodol bob blwyddyn, a braint o'r mwyaf i Bontypridd oedd cael eu dewis i gystadlu am y darian y tymor hwn. Roedd y dewis yn adlewyrchu cyfraniad John Pugh i'r ddau glwb, a'r traddodiad anrhydeddus dros ddegawdau lawer o chwaraewyr ifanc oedd wedi eu datblygu gan y coleg ac wedi mynd ymlaen i gynrychioli Pontypridd.

Roedd y gêm rhwng Met Caerdydd a Phontypridd yn un hynod gystadleuol, gyda'r ddau dim yn amddiffyn yn ddygn drwy gydol yr 80 munud ac yn dangos y gallu hefyd i dorri'n rhydd a sgorio ceisiau o safon. Pontypridd oedd yn fuddugol o 12pt i 42 gan sgorio chwe cais i sicrhau pwynt bonws gwerthfawr. Wedi'r chwiban olaf, cyflwynwyd Tarian Goffa John Pugh gan ei weddw Margaret i gapten Pontypridd, Cally James.

I gadw golwg ar hynt a helynt y 'Valley Commandos' galwch mewn i wefan CR Pontypridd www.ponty.net neu ar y safleodd cymdeithasol [@pontypridrfc](https://twitter.com/pontypridrfc)

Y Gynulleidfa yn Gwerthfawrogi S4C



Sioned William a Helen Prosser yng Nghinio Cronfa Glyndŵr

Sioned William, Prif Weithredwr Dros Dro S4C oedd gwestai gwadd Cinio Cronfa Glyndŵr yng Ngwesty'r Fro ym mis Hydref. Cyn ei hanerchiad bu Helen Prosser, y Cadeirydd, yn adrodd am waith Cronfa Glyndŵr yn hybu addysg Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf gan nodi fod cynnydd mawr yn y galw am gymorth ariannol. Derbyniwyd 55 o geisiadau yn 2023, o gymharu â 30 yn 2022. Dosbarthwyd £14,255 mewn grantiau, o gymharu â £7,434. Ac mae 2024 yn profi'r un mor brysur. Diolchodd yn arbennig i Wyn Rees, Pentrych, sy'n ymddeol fel Ysgrifennydd y Gronfa ac a fu'n ymddiriedolwr ers 1989.

Yna croesawyd Sioned William a fagwyd yn y Barri ac aeth i Ysgol Rhydfelen. Mae ganddi brofiad helaeth fel cynhyrchydd a chomisiynydd amryw o raglenni comedi gyda ITV, BBC a'r rhwydwaith annibynnol. Fe'i apwyntiwyd yn Brif Weithredwr Dros Dro S4C ym mis Chwefror eleni.

Yn ei haraith bu Sioned William yn sôn am rhai o'r pethau oedd yn rhoi ysbrydoliaeth iddi hi ac yn arbennig yr ysbryd rhyfeddol yn Ysgol Gymraeg Llundain a sut mae'n parhau hyd heddiw. Ysbryd sy'n ymfalchïo yng Nghymreictod y plant ond sydd hefyd yn hapus i fod yn rhan o ddinas amlddwylliannol Llundain lle mae'r iaith Gymraeg yn teimlo'n naturiol yn gyhyrog, yn chwareus ac yn rhan annatod o fywyd plant.

Parhad tudalen 2 >

£10

**Mae'n amser tanysgrifio
unwaith eto
i dderbyn Tafod Elái.**

**Gofynnwn i chi fynd i wefan
tafodelai.cymru
a thalu drwy'r linc
gyda cherdyn debyd neu credyd.**

Diolch i chi am eich cefnogaeth.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Tachwedd
i gyrraedd erbyn
5 Rhagfyr 2024

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
<http://www.tafodelai.cymru>

Argraffwyr:



EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG

**Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru**

**Gwasanaeth addurno,
peintio a phapuro**

Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol
ar gyfer eich cartref
neu fusnes**

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

**I gael pris am unrhyw
waith addurno**



TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

Gweithgareddau Cymraeg

Os ydych chi am ddefnyddio'ch Cymraeg yn Nhonyrefail, mae dau weithgaredd yng nghaffi Ar Ben y Byd yn y Stryd Fawr:

Grŵp Sgwrs dros Ginio bob yn ail ddydd Mawrth am 1pm (cyfarfod nesaf ar 5 Tachwedd)

Gwersi ukulele am 5pm bob dydd Iau, yn dechrau ar 7 Tachwedd

Dathlu'r Eisteddfod Genedlaethol

Cynhelir cyngerdd i ddathlu pawb o Donyrefail a gymerodd ran yr yr Eisteddfod nos Fercher, 6 Tachwedd yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail. Croeso i bawb! Yn ogystal â chorau Tonyrefail, bydd Côr Cwm Rhondda a Pharti'r Efail yn cymryd rhan. Bydd y drysau ar agor o 6pm ymlaen a bydd croeso i bawb.



**CLWB Y
DWRLYN**

Huw Llywelyn Davies
yn holi

Seimon Stockton

8yh Nos Iau
21 Tachwedd 2024
Clwb Rygbi Pentyrch

Mynediad drwy Aelodaeth £15
neu £5 i ymwelwyr

Manylion pellach:
clwbwdwrllyn@pentyrch.cymru



**CYLCH
CADWGAN**

8yh Nos Wener
8 Tachwedd 2024

Rheinallt Llwyd
yn siarad am
Islwyn Ffowc Elis
ar ganmlwyddiant ei eni
yn

Y Ganolfan,
Tabernacl, Efailisaf

Sioned William (parhad o dudalen 1)

Yna bu'n sôn am sut yr ysbrydolwyd hi gan S4C: "Rwy wedi bod yna ers 6 mis dros dro. Mae gweithlu'r Sianel yn angerddol dros y Sianel a'r iaith. Ac mae'r Sianel yn gwbl unigryw am ei bod wedi ei greu gan angerdd, wedi ei chreu gan weithred angerddol Gwynfor Evans ac wedi ei greu gan brotestiadau dros y blynyddoedd. Felly mae angerdd yn rhan o DNA y Sianel. Ac mae'n gyfnod heriol. Mae pobl yn ymwybodol iawn o'r hyn oedd wedi digwydd cyn i fi gyrraedd ond beth oedd yn anhygoel nes i sylweddoli, pan gyrhaeddais i, fod y Sianel wedi cario mlân i greu a darlledu rhaglenni o'r safon uchaf - rhai o'r gorau sydd wedi bod ar y Sianel - yn ystod y cyfnod anodd hyn. Ar ganran fach o'r arian dwi wedi gweld yn Lloegr a gwledydd eraill.

"Rwyf hefyd wedi'n ysbrydoli hefyd gan y berthynas rhwng y Sianel a'r gynulleidfa. Mae gennym ni linell ateb o'r enw Gwifren ac mae'n rhyfeddol. Dwi'n darllen e bob bore ac mae pobl yn ffono i ganmol a diolch yn eu calon yn enwedig ar ôl pethau fel Eisteddfod yr Urdd, Y Genedlaethol, Sioe Fawr, Tafwyl ac wythnos yma rydyn ni wedi cael gymaint o bobl yn ffonio ni i ganmol y ddrama newydd Cleddau a'r gyfres ddirdynnol Marw Gyda Chris - mae'n wir werth ei weld - rhaglen ysbrydoledig iawn. Dyn yn mynd o gwmpas i weld sut mae gwledydd eraill yn delio gyda marwolaeth - mae'n rhaglen rhyfeddol iawn i ddweud y gwir. Ac wedyn wrth gwrs pen-blwydd ymfflamychol Pobol y Cwm Ges i'r fraint o fynd i'w parti pen-blwydd i ddathlu'r cyfnod. Ac eto, chi'n sôn am ysbrydoliaeth fan yna, John Hefin, Gwenlyn Parry yn creu rhywbeth sydd wedi aros am hanner canrif ac sydd yn profi y gallwch wneud pethau yn Gymraeg. Fydd pobl yn edrych arno fe yn hytrach na rhaglenni Saesneg. Mae pobl yn edrych arno fe am eu bod nhw yn mwynhau e, nid achos bod rhyw ddyletswydd arny'n nhw. Ac drwy ysbrydoliaeth Gwenlyn oedd e moyn iddo fe fod yn rhywbeth fydd pobl yn edrych arno fe am eu bod nhw yn gweld eu hunain a'u straeon eu hunain yn cael eu hadlewyrchu nôl ar y sgrin. A dyna pam mae dal i fod yn un ô'n prif raglenni ni hanner canrif ymlaen.

"Mae mesur sy'n cael ei alw'n 'Audience Appreciation Index' ac mae'r rhai sydd am S4C lot yn uwch na darlledwyr eraill dwi wedi gweithio. Achos mae'r rhai sy'n gwylio yn mwynhau, yn gwerthfawrogi, yn cysylltu, ac mae hwnna'n unigryw iawn, yn berl o beth, a dyle ni fod mor falch o'r berthynas sydd gyda ni gyda'n sianel genedlaethol. Ac mae'n ysbrydoli rhywun sy'n gweithio yna i wybod fod y gynulleidfa yn poeni am eu rhaglenni cymaint."

LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

Gohebydd y Mis: Dafydd Roberts

Elusen 2Wish yn Cyrraedd Everest

Ar Hydref yr 20fed, cyrhaeddodd criw o gefnogwyr elusen 2Wish, Base Camp mynydd Everest. Bu'r criw i gyd yn codi arian at yr Elusen, a sefydlwyd yn ardal Pontyclun, sy'n rhoi cefnogaeth i rieni mewn galar. Wedi dros wythnos o fynydda caled ar yr ucheldir, a misoedd o godi arian a pharatoi, cyrhaeddodd y criw base camp sydd wrth droed Everest ar uchder o dros bum mil o fetrau.



Canolfan Gymunedol Pontyclun yn 30

Yn mis Medi dathlodd y ganolfan gymunedol garreg filltir o 30 mlynedd. Mae'r neuadd, sydd yng nghanol y dref, yn adnodd pwysig i nifer o grwpiau a theuluoedd.

Fiorentina

Braf oedd gweld un o ferched yr ardal yn cyfranu ar raglen newyddion S4C yn ystod y mis. Mae Lily Prygodzicz, gynt o ysgolion Llanhari a Gartholwg, yn astudio ffasiwn ym mhrifysgol Fflorens, Yr Eidal. Gwelwyd Lily ar y rhaglen yn rhoi disgrifiad o'r ddinas a brwdfrydedd y trigolion i wybod mwy am bêl-droed yng Nghymru o flaen ymweliad tîm Y Seintiau Newydd, oedd yn chwarae Fiorentina yng nghwpan Ewrop.

Gem Ddarbi Rygbi Ieuencid

Er mor agos yw'r ddau glwb, nid yn amal mae timoedd ieuencid Llantrisant a

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Hanner Marathon Caerdydd

Llongyfarchiadau i Amy Coombes a Sara Eysyllt am lwyddo i gwblhau Hanner Marathon Caerdydd a chodi arian teilwng i'w dewis elusennau. Cefnogodd Amy elusen Dreams & Wishes ac roedd Sara yn cefnogi City Hospice.


Dymuniadau Da

Dymunwn yn dda i Yvonne Williams wrth iddi wella wedi cyfnod yn yr ysbyty.

Hefyd danfonwn ein dymuniadau gorau at Gareth Huws sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Clwb y Dwrllyn

Roedd Clwb Rygbi Pentyrch dan ei sang ar gyfer noson Clwb y Dwrllyn yng nghwmni'r Prifardd Aled Gwyn.



Aeth â ni ar daith eisteddfodol gan ddechrau ym Mhontypridd a'r llwyddiant a brofwyd dan arweiniad ysbrydoledig Helen Prosser.

Phontyclun yn herio ei gilydd ar y maes rygbi. Ond dyna ddigwyddodd ar Hydref y 12fed ar gaeau chwarae Pontyclun. Cafwyd gem gystadleuol o flaen torf sylweddol iawn o'r ardal. Llantrisant aeth a hi yn y pendraw, yn fuddugol o 38 i 9.

Cychwyn Trefnu Eisteddfod Pontypridd

Yn dilyn llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mharc Ynysangharad trefnwyd cyfarfod yn Efail Isaf i ystyried cychwyn Eisteddfod blynyddol yn yr ardal.

Yn ôl cadeirydd y cyfarfod, Iolo Roberts, roedd pawb yn cytuno fod yn rhaid cael eisteddfod leol wedi bwrlwm y brifwyl.

"Eisteddfod Pontypridd fydd hi a'r bwriad yw ei chynnal fis Mehefin nesaf," meddai.

"Mae cael eisteddfod o'r fath wedi deillio yn uniongyrchol o waddol yr Eisteddfod Genedlaethol yn ein hardal ni. Mae Eisteddfod y Rhondda eisoes yn bodoli ac Eisteddfod y Cymoedd - fe fydd hi'n braf felly cael eisteddfod i'n rhan ni o'r ardal - sef ardal y Taf yng ngwaelod y cymoedd. Fe fydd y dalgylch, mae'n debyg, o gwmpas ardal Pontypridd a gobeithiwn ddenu disgyblion o ysgolion cynradd, Pontypridd, Garth Olwg, Llanhari ac ysgolion cynradd ardal Tonyrefail."

Ychwanegodd Mr Roberts fod pobl yr ardal am "adeiladu ar y brwdfrydedd a gafwyd" cyn ac yn ystod y brifwyl ar Barc Ynysangharad.

Cychwynnodd profiad Aled o eisteddfota yn ifanc iawn gyda'i frodyr Jim a John, fel un o fois Parc Nest, wrth i'w mam eu tywys o eisteddfod i eisteddfod ar fws a thrên a'r 'pick-up'.

Clywyd am y troeon trwstan, yr ambell gam honedig a'r llwyddiannau. Cawsom gyfle i gwrdd â rhai o'r cymeriadau nodedig - am bob math o resymau - Stuart Burrows, Dic Jones, Cynan, Llew Jones a Pontshân yn eu plith.

Cyfareddodd y gynulleidfa, a'r chwerthin iach yn arwydd o'r mwynhad. Roedd yn noson ddiguro a bydd yn aros yn y cof.

Diolch Aled.

Ni ellid fod wedi cael gwell clo na gwrando ar Peter Griffiths, wrth ddiolch i Aled, yn adrodd rhan o gywydd Jim "I Aled Gwyn."

Ac mor ddengar yw cariad
arhosol hwn dros ei wlad;
mor Gymreig ei hiwmor iach
a luniwyd gan hen linach
o storiwyr diguro
ffraeth, dan gyfriniaeth ei fro.
Ystryw yw craidd ei storiâu;
ei gelwydd sy'n un golau;
ei wên sy'n llawn drygioni
a'i ddweud-ei-ddweud ynddi hi,
a'i 'wyllys dros elusen
gynted, lydaned â'i wên.



Merched y Wawr Y Garth

**Osian Rowlands, Prif Weithredwr
Menter Iaith RhCT**

Mewn cwta awr rhoddodd Osian ddarlun clir, manwl, cyfoes, gonest a chynhwysol o sefyllfa'r Gymraeg heddiw yn Rhondda, Cynon Taf. Fel Prif Weithredwr y Fenter Iaith mae ganddo heriau a rhwystrau - ond, os gall rhywun eu goresgyn, fe wnaiff Osian ei orau glas. Mae'n cwl, yn bwylllog ac yn amyneddgar - ond yn gweld yn glir yr hyn sy' angen ei wneud.

Dechreuodd trwy ddatlu llwyddiant Eisteddfod anhygoel RhCT! 'Yr ore erioed' mynte Tudur Owen! Ac mae hynny yn glod! Ond roedd gan Osian ffeithiau i gefnogi hyn! Yr holl wirfoddolwyr ddaeth ynghyd i ysgwyddo'r baich - yn stiwardiaid ac yn aelodau pwyllgore. Yr ymatebion gofnodwyd gan blant, gan ddysgwyr, gan y di-Gymraeg! Y prosiect '*Hapus i Siarad*' sy' wir wedi gafael - pobol o bob oed, o bob gallu ieithyddol, yn rhoi cynnig arni. Tystiolaeth yn wir o'r dylanwad positif gafwyd ar yr ardal.

Mae yna waddol! Seilwaith i adeiladu arni i'r dyfodol. Ond rhaid i bob un ohonom ysgwyddo rhywfaint o'r baich

os am weld llewyrch. Nod y Fenter yw 'sicrhau bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yn Rhondda Cynon Taf ac yn iaith fyw yn ein cymunedau'. Ac o ddydd i ddydd dyna mae Osian a'i dîm bychan yn ceisio ei wneud trwy bwyllgore rhyngweithiol, cyfarfodydd traws-sirol, ymgyrchoedd, digwyddiadau cyffrous . . . cymaint o wahanol weithgareddau. Rhannodd sleidiau gyda ni - ôl gwaith ymchwil manwl - ac roedd pob un sleid yn datgelu llawer am sefyllfa'r iaith heddiw - a chynt. Y tabl ar y chwith isod yn datgelu canrannau'r siaradwyr Cymraeg yn ein pentrefi oddi mewn i Daf-Elái sydd â phoblogaeth o dros 100,000.


Mae'r sialensau yn fawr. Mae 'na heriau o safbwynt cyllid, o safbwynt gweinyddiaeth a'r tâp coch bondigrybwyll - ond ymlaen mewn



ffydd yr â'r Fenter dan ofal Osian! Diolch am roi o'th amser i ni a'n goleuo! A phob lwc gyda'r gwaith!

Chwilio am anrhegion Nadolig unigryw?

**Dewch i weld y sgarffiau sidan gan By Biology,
ar werth am un wythnos yn
John Lewis Caerdydd, Tachwedd 18 – 24**



Mae'r patrymau amryliw a welir ar y sgarffiau yn cynrychioli celf hardd o ddelweddau gwyddonol a ddefnyddir er mwyn hyrwyddo ymchwil meddygol pellach. Bydd cyfraniad o werthiant y cynnyrch yn mynd tuag at MS Society UK ac Alzheimer's Research UK. Sefydlwyd y busnes gan Siwan Oldham (gynt o'r Creigiau) sy'n gweithio ym maes ymchwil Cancr plant. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan www.bybiology.com



Ward	Canran Siarad Cymraeg
Beddau a Tyn-y-nant	11.8
Brynna a Llanharan	14.7
Pentre'r Eglwys	19.8
Cilfynydd	13.4
Gilfach-goch	8.4
Glyn-coch	12.3
Graig a Gorllewin Pontypridd	12.3
Y Ddraenen Wen a Rhydfelen Isaf	11.6
Llanhari	14.9
Llantrisant a Thonysguboriau	14.8
Llanilltud Faerdre	17.3
Canol Pontyclun	17.6
Dwyrain Pontyclun	24.0
Gorllewin Pontyclun	14.6
Tref Pontypridd	17.9
Rhydfelen Central	11.9
Ffynnon Taf	14.4
Ton-teg	14.4
Dwyrain Tonyrefail	10.6
Gorllewin Tonyrefail	11.2
Trallwng	13.3
Trefforest	9.6
Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf	10.7
Taf Elái Cyfan	13.9

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:

Nia Williams

colin.williams@talktalk.net

Llongyfarchiadau anferth . . .

. . . i holl blant y pentre wnaeth mor dda yn eu harholiadau'r haf yma! Gan ddiolch i athrawon ymroddgar Plasmawr - mae ein criw o'r pentre i gyd wedi cael lle i wneud cwrs yn y brifysgol! Rhai yn Lerpwl, Caerwysg, Abertawe, Nottingham, Aberystwyth, Sheffield - pob un yn astudio gwahanol bynciau - graffeg a dylunio, fferylliaeth, hanes, celfyddydau cain, y gyfraith, milfeddygaeth . . . ! Am blant talentog! Am ddisgyblion diwyd! Pob lwc i chi i gyd ar eich llwybrau newydd - cadwch mewn cysylltiad!

Gwellhad buan . . .

. . . i **Jenny MacDonald!** Cafodd Jen lawdriniaeth yn ddiweddar - ond fydd hi ddim yn hir cyn daw hi nôl i waldio pêl golff, torri cwys a phlannu bylbiau! Pob lwc efo'r gwella, Jen!

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gydag Olwen Gruffydd, Parc y Coed. Chwith iawn meddwl ein bod wedi colli Robin Griffith yn ddiweddar - yr anwyllaf o blant dynion. Mor ddifyr ei sgwrs, mor eang ei wybodaeth, mor barod ei gymwynas. Fel *Robin Gymro* y cai ei adnabod yn yr Orsedd, gan iddo weithio fel ffotograffydd i'r Cymro am ddegawdau. Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar o Eglwys y Crwys, Caerdydd am dros 60 mlynedd. Cynhaliwyd angladd hollol breifat yn Eglwys y Crwys yn ystod mis Hydref. Yn anfon cwtsh a chariad atat, Olwen.

Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Nia Parker ar ddathlu penblwydd pwysig yn ddiweddar! Mae Nia yn gyd-reolwr Mudiad Meithrin yn y De-Ddwyrain. Mwynia y dathlu yn enwedig gig Al Lewis yng Nghlwb y Bont.

Gwledd Creigiau 23 a Cymdeithas rieni ac athrawon Ysgol Creigiau

Cafwyd noson wych yng Nglwb golff Creigiau ar nos Sadwrn Hydref 12fed. Diolch i Creigiau 23 ac i'r Gymdeithas Rieni ac athrawon fe godwyd £3377 ar gyfer yr ysgol. Cafwyd raffl, ocsiwn cudd ac roedd ffotograffydd yn tynnu lluniau. Diolch i'r band The Revs am gadw pawb i ddawnsio drwy'r nos!

Yr Urdd yng Ngŵyl Cymru Gogledd America Gan Morus Jones

Ar ôl ennill yn Eisteddfod yr Urdd Maldwyn yn ein cystadlaethau unigol, cafodd pedwar ohonom (Owain,



Branwen, Rose - cyn ddisgybl Glantaf a finnau - cyn ddisgybl Plasmawr) ein dewis i fynd ar drip allan i America i berfformio yn y 'North American Festival of Wales'. Ar ôl diwrnod hir o deithio, fe gyrhaeddodd ni Cincinnati cyn gyrru draw i goleg Rio Grande gyda Dan Rowbotham. Dyma oedd ein cartref am y dyddiau nesaf lle cawsom gyfle i weld yr ardal leol, clywed am hanes y Cymry yn yr ardal a bwyta digon o fwyd Americanaidd wrth gwrs.

Cawsom gyfle i berfformio dwywaith yn Ohio, mewn Amgueddfa Gymreig ac yn yr ysgol leol - Galia Academy.

Draw a ni wedyn i Pittsburgh er mwyn perfformio yn yr Ŵyl ei hun. Cawsom gyfle i grwydro Pittsburgh ac ymweld â rhai o leoliadau blaenllaw'r ddinas gan gynnwys stadiwm y tîm pêl-droed Americanaidd 'Pittsburgh Steelers', yr Amgueddfa 'Heinz' a mynd ar daith fws o amgylch y ddinas. Cawsom gyfle i berfformio dau ddarn yr un yn y gyngerdd agoriadol gan ddangos yr amrywiaeth eang o draddodiadau a diwylliant Cymru i'r Americanwyr. Roedd e'n brofiad hyfryd gweld a siarad â llwyth o bobl oedd â diddordeb anferth yng Nghymru er ein bod yn byw miloedd o filltiroedd i ffwrdd.

Roedd yn drip bythgofiadwy ac rydym ni'n pedwar yn hynod o ddiolchgar i'r Urdd am roi'r profiad anhygoel yma i ni.

Profiad gwaith yng . . . Nghosta Rica

Pob lwc Elina Thomas-Jones wrth i ti baratoi ar gyfer dy daith i Costa Rica! Tri mis o brofiad gwaith mewn canolfan sy'n gwarchod ac yn gwella anifeiliaid gwyllt y wlad. Cofia fwynhau pob munud o'th gyfnod yna - tra hefyd yn cyfrannu at dy waith ymchwil fydd yn cyfrannu yn y pen draw at ennill gradd Meistr.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Catrin Brooks a'r teulu, Y Teras, Creigiau. Bu farw Fred Brooks, tad Catrin, yn ddiweddar. Cymeriad mawr - uchel ei barch a hynod weithgar yn ei filltir sgwâr, Caerffili. Yn meddwl amdanat, Catrin.

Dyma deyrnged i Fred Brooks a gyhoeddwyd ym mhapur bro CwmNi.

Cofio Fred Brooks (1944 -2024)



Ddechrau mis Medi, rhannwyd y newyddion trist bod Fred Brooks wedi marw. Roedd yn yr ysbyty ym Merthyr, ac yno, bu farw'n dawel yng nghwmni ei deulu. Dri mis ynghynt, roedd wedi mwynhau amser da

yn dathlu ei ben-blwydd yng Nghlwb Rygbi Caerffili yng nghwmni ei deulu a'i ffrindiau, yn dawnsio'n egniol.

Ganwyd Fred yn un o bedwar ar Ffordd Bedwas, gyferbyn â chapel Tonyfelin, yn blant i Penry a Mavis Brooks. Gwelwyd yr enw ar ochr fan cludo celfi gydag enw ei dad-cu, *F. C. Brooks* arno. Ar ôl gadael Ysgol Martin Sant, aeth Fred i weithio yn y 'loco-sheds', sef man gwaith y gwasanaeth rheilffyrdd yng Nghaerffili. Dysgodd Fred a channoedd tebyg iddo gymaint o sgiliau yno, sgiliau a fu'n bwysig i Fred ar hyd ei oes. Ymhen amser, cyfarfu â'i wraig Non, myfyrwraig yn y Barri, sy'n hannu o ogledd Cymru, ac a fu ymhen amser yn athrawes yn Ysgol Ifor Bach, Senghennydd. Ganwyd iddynt dwy ferch, sef Catrin a Siân, a hwy oedd cannyll llygaid eu rhieni. Yn yr un modd, ganwyd pedwar o wyrion, Mabli, Betsan, Arwen ac Eilyr, ac ni fu tad-cu balchach o'i deulu estynedig. Roedd yn daer o blaid addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ond er sawl ymdrech ganddo i feistrol'r iaith, ni lwyddodd i wneud hynny.

Pan ddaeth yr amser i drosglwyddo'r cwmni i'w genhedlaeth ef, roedd Fred yn ei theimlo'n ddyletswydd arno i gymryd awennau'r cwmni, a felly y bu am ddegawdau. Roedd yn ddyn cyhyrog ac yn bersonoliaeth cynnes a chadarnhaol. Gwelai yr ochr bositif bob tro, ac ymroddai i fod yn gyfaill i bawb.

Bydd gan Glwb Rygbi Caerffili lawer o hanesion am gymwynasgarwch a theyrngarwch Fred. Bu'n chwaraewr am ddegawdau, yn hyfforddwr ac yn bwyllgor-ddyn yn y clwb.

Yn yr un modd, bu'n awyddus i gefnogi ac actio yng Nghwmni Drama Cwm Ni. Cyn hynny, bu'n actio gyda'r *Caerphilly Players*, ac yn llawn atgofion o Eynon Evans, a dechreadau'r cwmni. Elfen bwysig arall iddo oedd ei daerineb i wella adeilad a defnyddioldeb Neuadd y Gweithwyr.

Erys ein cydymdeimlad gyda Non, Catrin a Siân, gan ddymuno iddynt bob cysur wrth gofio a diolch am un o wŷr mwyaf annwyl, sylweddol a didwyll Caerffili.

Y Parchedig Denzil John



EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cylch Cadwgan

Cynhaliwyd cyfarfod o Gylch Cadwgan yng Nghanolfan y Tabernacl nos Wener, Hydref 4ydd. Y siaradwr gwadd oedd Dafydd Morse a gyflwynodd noson ddifyr iawn yn sôn am feirdd Pontypridd, sef Clic y Bont.

Roedd Dafydd wedi paratoi'n fanwl iawn a chawsom hanesion difyr ganddo am y beirdd hynod yma ac enghreifftiau o'r penillion a grëwyd ganddynt. Cyflwynwyd y noson yn gartrefol iawn gan y Prifardd Cyril Jones. Braf hefyd oedd cael cwmni teulu Dafydd o Geredigion, Elin ei chwaer a Tomos a Gwerful a'r teulu o Gaerdydd.

Daeth y noson â llu o atgofion melyn yn ôl i mi gan imi ddysgu Dafydd, Elin a Tomos yn Ysgol Garth Olwg pan oedd y teulu'n byw yn Nhonteg. Trefnwyd y noson gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cylch eto yng Nghanolfan y Tabernacl nos Wener, Tachwedd 8fed am 8 o'r gloch pan fydd Rheinallt Llwyd yn siarad am Islwyn Ffowc Ellis ar ganmlwyddiant ei eni.

Côr Godre'r Garth

Llongyfarchiadau gwresog i aelodau Côr Godre'r Garth sydd yn dathlu hanner cant o flynyddoedd o ganu. Bu Cinio arbennig yn y Bontfaen i ddathlu'r achlysur gan groesawu aelodau a chyn-aelodau'r Côr. Bydd Cyngerdd Dathlu ar nos Sadwrn, yr ail o Dachwedd yn Eglwys St Catherine ym Mhontypridd. Pob hwyl i'r Côr ac ymlaen â chi at yr hanner can mlynedd nesaf!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i'r Prifardd Cyril Jones ar ennill Tlws y Tiwtor yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf eleni. Enillodd y tlws am ei gyfraniad nodedig i ddysgu Cymraeg fel ail-iaith i Oedolion. Bu Cyril yn brysur dros hanner can mlynedd yn cyflwyno'r iaith i oedolion gan ddechrau yn Sir Drefaldwyn, ond erbyn hyn yn gweithio yn Ne Cymru. Mae ganddo ddau ddosbarth, y naill ym Merthyr a'r llall yn Llantrisant ar hyn o bryd. Mae'r oedolion yma bron iawn wedi meistrolï'r iaith ac mae Cyril wrth ei fodd yn cyflwyno llenyddiaeth a barddoniaeth Cymraeg iddynt gan loywi eu hiaith wrth wneud.

"Eisteddfod Pontypridd"

Trefnwyd cyfarfod yng Nghanolfan Y Tabernacl nos Fercher, Hydref 16eg i

drafod a threfnu sefydlu Eisteddfod newydd sbon yn yr ardal. Wedi llwyddiant ysgubol yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd ym mis Awst eleni roedd pawb yn gytûn fod yn rhaid sefydlu Eisteddfod leol. Cytunwyd i'w chynnal yn nhref Pontypridd ym mis Mehefin nesaf a'i galw'n Eisteddfod Pontypridd. Gellir adeiladu ar y brwdfrydedd a gafwyd cyn ac yn ystod y Brifwyl eleni gan obeithio y bydd yr ysgolion a'r corau lleol yn gefnogol.

Y TABERNACL

Bore Brecwast

Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd ar fore Sul, Medi 29ain i fwynhau brecwast blasus iawn yn Neuadd y Pentref cyn mynd ymlaen i'r Oedfa yn y capel. Raid diolch i bawb a fu wrthi'n trefnu'r digwyddiad a'r rhai fu'n paratoi'r bwyd. Codwyd £370 a gyflwynwyd i Gronfa Libanus UNICEF.

Cinio Cynhaeaf

Mae aelodau'r Tabernacl wrth eu boddau'n ymgasglu i fwyta a mwynhau sgwrs. Ar ôl llwyddiant y "Brecwast" ddiwedd Medi daeth rhyw hanner cant ynghyd i fwynhau Cinio Cynhaeaf ar ddydd Sul, Hydref 13. Diolch i Eleri Mai am y trefniadau ac i bawb a fu'n paratoi cawl a'r pwdinau blasus. Codwyd dros £200 at Apêl Hamperi Nadolig y Tabernacl.

Gwasanaeth Cynhaeaf

Trefnwyd Gwasanaeth Cynhaeaf llwyddiannus iawn ar fore Sul, Hydref 13eg. Fe swynwyd y gynulleidfa gan blant ifanc yr Ysgol Sul gyda'u canu afieithus. Cafwyd datganiad hyfryd gan Gantorion y Tab dan arweiniad Elwyn Hughes a Siân Elin yn cyfeilio. Mae'r Côr yn mynd o nerth i nerth. Daeth Geraint Rees i annerch y plant wedyn gan gymryd y thema "Diolch". Casglwyd pentwr o fwyd a nwyddau amrywiol i'w cyflwyno i Fanc Bwyd Capel Salem, Tlonteg. Diolch i bawb gyfrannodd i lwyddiant y bore.

Hwyl ar Gân

Ar Sul, Hydref 20fed, sef trydydd Sul y mis cawsom gyfarfod arbennig iawn yn y prynhawn yn Y Tabernacl. Daeth Band y Diarhebion o dan ofal Siân Elin i'n harwain mewn môr o ganu. Chwaraewyd emynau bywiog gan y band ac mi ymunodd y gynulleidfa yn llawn afiaith a brwdfrydedd. Canodd plant yr Ysgol Sul dri emyn ac mi gawson gyfle i glywed Côr y Tab yn canu hefyd dan arweiniad Elwyn Hughes. Elwyn hefyd fu'n cyflwyno'r emynau yn ystod y prynhawn gan ddiolch yn gynnes i Fand y Diarhebion. Gobeithio y cawn gyfle rywbryd eto i gael cwmni'r Band.

Merched y Tabernacl

Dydd Gwener, Hydref 4ydd ymgasglodd nifer dda o'r merched yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd. Ar ôl cael sgwrs, paned a thamaid i fwyta fe aethom ni i'r Neuadd Gyngerdd i wrando ar ddatganiad gan Alis Huws, y delynores. Cyflwynodd weithiau gan Grace Williams, Caroline Lizotte a Debussy. I gloi ei datganiad fe ganodd gân werin gan gyfeilio ar y delyn. Mae Alis yn enedigol o Bowys ac yn gyn-delynores Frenhinol. Mae'n perfformio'n gyson ar draws Prydain a gweddill y byd. Mae Alis yn angerddol am waith cymunedol ac yn cynnal cyngherddau rheolaidd i bobl sy'n byw gyda dementia ac yn gweithio gyda phlant sydd ag anghenion arbennig.

Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd i weld arddangosfa "Y Cymoedd". Byddwn yn cyfarfod yn y Dderbynfa am 11 o'r gloch fore Gwener, Tachwedd 15fed. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Taith Bws i Gaerfaddon

Ydych chi wedi dechrau eich siopa Nadolig? Dyma gyfle da i chi i wneud drwy roi eich enwau lawr i ymuno â'r daith bws i Gaerfaddon ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 16eg.

Y pris fydd £25 gan gynnwys tocyn Raffl. Am fwy o wybodaeth ac i gadw sedd ar y bws cysylltwch ag Eleri Mai neu Karen Evans. Bydd elw'r daith yn cael ei gyflwyno i waith yn ymwneud â Distroffï'r Cyhyrau.

Pwdin Nadolig

Daeth cyfle yn y Gwasanaeth Cynhaeaf yn Y Tabernacl i archebu pwdin Nadolig. "Rhy gynnar" medde chi - wel, na - fydd y Nadolig yma cyn pen dim!

Prosiect gan Menna Lloyd Williams o Aberystwyth yw'r pwdinau Nadolig i godi arian i Apêl Ffynhonnau Byw, sef apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg tuag at waith Cymorth Cristnogol yng Ngholombia. Mae nifer fawr iawn o bwdinau wedi eu harchebu ac yn ogystal â'r holl waith o'u paratoi mae Menna am gyfrannu'r nwyddau i gyd i wneud y pwdinau yn rhad ac am ddim.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Tachwedd

Tachwedd 3ydd: Oedfa Gymun dan ofal Ann ac Emlyn Davies

Tachwedd 10fed: Y Parchedig Aled Edwards

Tachwedd 17eg: Y Parchedig Jeffrey Williams

Tachwedd 24ain: Sul Teuluol am 4 o'r gloch y prynhawn.

PONTYPRIDD

Gohebydd y mis - Menna Lewis

Cangen Merched y Wawr

Hawl i holi! Cafwyd noson ddifyr yn y gangen yn holi tair aelod ac yn dod i'w hadnabod yn well. Diolch i Dil, Menna T a Karen am fod mor ddewr ac am fod yn barod i wynebu cwestiynau diri. Llwyddwyd i osgoi trafod gwleidyddiaeth a chrefydd! Ond diddorol gwybod am eu hoff gân a phwy ddylanwadodd arnyn nhw yn yr ysgol. A llawer mwy.

Penblwydd hapus mawr ac arbennig i sawl aelod o'r gangen hefyd! Dathlwhc mewn steil!

Tro nesaf, cawn gwmni Claire Hingott, actores a chantores ac un sy'n gallu siarad dros Gymru! Croeso i aelodau o ganghennau eraill ymuno gyda ni. Rŷn ni'n cwrdd yr ail nos Iau o'r mis am 7.30yh yng Nghlwb y Bont.

Clwb Llyfrau

Dyma gyfle i drafod yr hyn mae pawb wedi bod yn darllen dros y mis diwethaf. Fel arfer, does dim un llyfr penodol ond y tro yma, roedd rhaid trafod nofel Eurgain Haf, enillydd teilwng yn ein Eisteddfod Genedlaethol. Roedd yn amlwg fod pawb wedi dwlu ar y nofel 'Y Morfarch Arian' ac wedi mwynhau'i darllen. Roedd gwrando ar Eurgain yn trafod y nofel yn ein cangen MyW ddechrau'r tymor yn sicr yn rhoi mwy o ddyfnder i'r trafod. Os ydych chi'n ddarllen ydd brwd, croeso i chi ymuno gyda ni ar foreau Mercher, unwaith y mis, yn Llyfrgell newydd y dre.

Lewis Meecham

Mae'n wych i weld cyn ddisgybl Ysgol Pont Sion Norton a Rhydfelen yn rhan o'r rhaglen Saving Lives ar BBC Cymru. Cawn fewnwelediad i fywyd y llawfeddygon a'r gwasgedd dyddiol sydd arnyn nhw. Da iawn fe a diolch iddyn nhw gyd am eu gwaith clodwiw.

Gŵyl Morfydd Llwyn Owen

Roedd Pontypridd yn fwrllwm diwylliedig unwaith eto ym mis Hydref



gyda nifer fawr o weithgareddau a digwyddiadau yn rhan o'r ŵyl newydd yma. Roedd

amrywiaeth fawr i fwynhau-cyngherddau, darlleniadau, parêd ysgolion lleol, taith gerdded a chymaint mwy. Am wledd a'r cyfan yn rhad ac am ddim. Gobeithio wir y daw hon yn ŵyl flynyddol a diolch anferthol i bawb fu wrthi'n trefnu ac i bawb fynychodd yn ystod y penwythnos.

Clwb y Bont

Mae cymaint o ddigwyddiadau yn y clwb dros y misoedd nesaf. Cofiwch fynd ar eu gwefan i weld be sy mlaen.

Cyngerdd Côr Godre'r Garth

Mae tocynnau y cyngerdd mawreddog, i ddathlu'r hanner cant, am 7yh Tachwedd yr 2il, ar werth ar Ticket source ac ar y drws, yn eglwys Sant Catherine. Dewch i ddathlu gyda'r côr.

Siaradwyr newydd

Mae'r sesiynau bore Iau yn parhau. 10.30 yn yr Amgueddfa. Croeso i siaradwyr newydd newydd ymuno a chroeso hefyd i siaradwyr Cymraeg yr ardal i ddod yn rhan o'r rota. Mae brwdfrydedd y siaradwyr yn hwb i'r galon.

Ymbweru Bro Rhondda Cynon Taf

Beth am ymuno fel cerddwr parc ar fore Sadwrn, o amgylch parc Ynys Angharad, a chynnig cyfle i siaradwyr newydd ddefnyddio eu Cymraeg? Dilynwch dudalen Ymbweru Bro Rhondda Cynon Taf am fwy o wybodaeth.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Dawn Walters

Cydnabyddiaeth pêl-droed menywod Cymru

Llongyfarchiadau i Shelley Walters ar dderbyn, o'r diwedd, ei chap cenedlaethol ar 4 Hydref. Ar raglen 'Yr Hawl i Chwarae' ar S4C dywed Shelley ei bod hi mor falch o'r gydnabyddiaeth gan yr FAW ar ôl aros 49 mlynedd a 'does neb yn gallu cymryd hon oddi wrthi.

Yn 16 mlwydd oed chwaraeodd Shelley ei gêm ryngwladol cyntaf yn erbyn Iwerddon tra'n chwarae i dîm menywod Dwyrain Caerdydd.

Ym 1976 ymunodd hi â Chasnewydd. Cynrychiolodd hi Gymru ar 12 achlysur rhwng 1975 a 1987 yn erbyn Yr Alban, Lloegr, Iwerddon, Ffrainc a Lwcsembwrg. Sgoriwyd 14 gôl rhyngwladol.

Wnaeth Shelley ymddeol ym 1987 yn 28 mlwydd oed tra'n chwarae i Dongwynlais.



16-11-2024

Capel Hermon, Treorci

www.eisteddfodyrhondda.cymru

Yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd

(Erthygl a gyhoeddwyd gyntaf ym mhapur bro CwmNi Medi 2024)


Na, nid yr Eisteddfod sydd newydd gael ei chynnal mor llwyddiannus ym Mharc Ynys Angharad ond yr un ddiwethaf i'w chynnal yno, a hynny yn Awst 1893.

Mae'n rhyfedd na ddaeth y Brifwyl i Bontypridd eto ar ôl 1893, o gofio pwysigrwydd a phrysurdeb Pontypridd yn y cyfnod hwnnw, y bywyd diwylliannol Cymraeg oedd yn ffynnu yno, a'i chysylltiadau "derwyddol" oedd yn denu cymaint o sylw yr adeg honno, diolch i Iolo Morganwg a Dr William Price wedyn.

Efallai bod yr ateb i'w ganfod mewn llyfr am Eisteddfod 1893 a gyhoeddwyd y llynedd. Sheldon Phillips yw'r awdur, ac roedd rhai o'i deulu yn amlwg iawn ymhlith trefnwyr yr Eisteddfod honno. Dim ond llanc oedd ei dadcu Robert ar y pryd, ond roedd y brodyr hynaf i gyd â chyfrifoldebau allweddol ar wahanol bwyllgorau'r Eisteddfod. Cymry Cymraeg o Ynysybwll yn wreiddiol oeddynt, ond teitl llyfr eu disgynydd yw "No-one Remembers Pontypridd: The forgotten story of the 1893 National Eisteddfod of Wales". Nid yw Sheldon Phillips yn siarad Cymraeg, ac mae'n debyg i'r iaith farw yn y teulu yng nghyfnod ei dad-cu, er gwaethaf eu gweithgarwch Eisteddfodol.

Dyna oedd hanes yr iaith yn y cymoedd yn gyffredinol yn yr ugeinfed ganrif. Un o'r prif wahaniaethau rhwng Eisteddfodau 1893 a 2024 yw'r cynnydd a fu yn y nifer o Gymry Cymraeg yn yr ardal yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif. Pleser o'r mwyaf oedd gweld cynifer o ddisgyblion yr ysgolion Cymraeg yn cymryd rhan ymhob agwedd o'r Eisteddfod, o ddefodau'r Orsedd i'r meysydd parcio, a'r cyn-ddisgyblion a siaradwyd newydd yn amlwg yn y digwyddiadau i gyd. Dyma un o'r gwahaniaethau amlycaf rhwng Eisteddfod 1893 a 2024: iaith annwyl y gorffennol oedd y Gymraeg yn 1893, iaith i'w thrysori cyn ei rhoi o'r neilltu. Iaith i'w defnyddio, ei dysgu a'i dathlu yw hi heddiw: iaith i'r dyfodol a'r presennol.

Ond mae rhai pethau'n gyffredin i 1893 a 2024. Parc Ynys Angharad oedd prif faes yr Eisteddfod yn 1893 hefyd – er roedd Pontypridd a'r Parc ei hun yn wahanol iawn. Roedd safle mart gwartheg lle mae'r bont newydd oedd yn brif fynedfa i'r Maes eleni a chae gerddi (allotments) ar hyd glan ddwyreiniol yr afon. Doedd dim Lido yn y Parc na lle chwarae ar gyfer plant. Nid oedd cofeb i



gyfansoddwyr yr anthem genedlaethol yno chwaith: dim ond yn 1930 y cafodd honno ei dadorchuddio. Ond fe fyddai'r anthem i'w chlywed yn Eisteddfod 1893. Mae hi wedi ei chanu yng ngweithgareddau'r Orsedd ers Eisteddfod Caernarfon yn 1880.

Nid oedd y rheol Gymraeg yn bodoli eto, felly roedd cystadlaethau yn Saesneg a Chymraeg a rhai ohonynt am gyfieithiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg. Rhyfedd yw gweld bod gwobrau'n cael eu cynnig am adrodd darnau o farddoniaeth Saesneg, gan gynnwys "The Raven" gan Edgar Allan Poe!

Erbyn 1893 roedd dylanwad cynyddol y capeli a'r mudiad dirwest wedi sobri eisteddfodau traddodiadol y tafarndai. Serch hynny, bu trafodaethau brwd am weini alcohol ar y Maes, a dyfarnodd Cadeirydd y prif bwyllgor, y Barnwr Gwilym Williams, yn erbyn hynny. Yn ôl un o'r papurau lleol, dywedodd, "They were a drunken race in this district he

knew..." Roedd nifer o destunau crefyddol eu naws yn y rhaglen hefyd: un o'r cystadlaethau oedd am draethawd yn amlinellu'r dulliau gorau o glirio dyledion y capeli anghydfurfiol a fenthycodd er mwyn codi adeiladau mwy o faint yn dilyn diwygiadau mawr 1849 ac 1859.

Roedd yr Eisteddfod yn prysur ail-drefnu a moderneiddio yn 1893. Nid oedd gwisgoedd arbennig ar gyfer yr Orsedd eto, a rhyfedd yw edrych ar y lluniau o ddynion yn eu gwisg bob dydd yn seremonïau'r Orsedd. A dynion oedd pob un o'r Gorseddigion yn 1893, wrth gwr. Y Maen Chwyf ar gomin Pontypridd oedd ffocws eu gweithgareddau hefyd, nid y cylch symudol sydd gennym heddiw.

Un o'r pethau wnaeth fy synnu wrth ddarllen am yr Eisteddfod 1893 oedd maint y pafiliwn. Roedd yn anferth, gyda lle i 20,000, ac fe'i codwyd mewn deufis. Ar ben hynny, roedd e wedi ei oleuo â thrydan. Ond adeilad dros dro yn unig ydoedd, ac roedd ei gost wedi achosi problemau ariannol mawr i'r trefnwyr. Cymrodd bum mlynedd iddyn nhw glirio'r ddyled.

Peth braf oedd cerdded llwybrau Parc Ynys Angharad eleni, a meddwl am y torfeydd fu'n eu cerdded yno adeg yr Eisteddfod Genedlaethol ddiwethaf. Trafod y canu a'r barddoni, dadlau am safonau'r corau - enillodd Côr Unedig Rhymni y gystadleuaeth ar gyfer y corau mawr, gyda llaw, gan guro corau'r Rhondda...

Eisteddfod wahanol iawn mewn cyfnod gwahanol iawn – ond yr un yw natur cystadlu, a'r un yw pwrpas a phleser pob eisteddfod!

Dr Elin Jones

HELEDD FYCHAN

Aelod o'r Senedd dros Ganol De Cymru

- 01443 853214
- Heledd.Fychan@Senedd.Cymru
- 2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ
- Heledd Fychan AS / MS
- @Heledd_Plaid
- @Heledd_Plaid



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

Colofn Blasus a lachus

Eluned Davies-Scott



Ah.....!

Mae'n dymor bwyd cysur ac, i lawer, mae hyn yn golygu gweini greffi blasus fel rhan o bryd bwyd. Honnir Alan Davidson yn ei *'Oxford Companion of Food'* fod greffi yn 'rhywbeth sy'n gyfarwydd i'r rhai sy'n hanu o Ynysoedd Prydain ac ardaloedd y mae dylanwad diwylliannol arnynt, ond yn dipyn o ddirgelwch i weddill y byd'.

Yn 2022 defnyddiodd papurau newydd rhanbarthol a chenedlaethol ganlyniadau ymchwil a gomisiynwyd gan Schwartz i hysbysu eu darllenwyr am rai o'r canfyddiadau ddorol a doniol. Ni fydd yn syndod i chi ddarllen bod 42% o'r rhai a holwyd yn gweld greffi yn unigryw i Brydain. Mae 34% yn ystyried yn 'fwyd cysur' ac i 28%, un o'u hoff bethau am y tymor oerach yw cael prydau gyda greffi sy'n gwneud iddynt deimlo'n gartrefol, cyfforddus a chynnes. Mae'r emosynau hyn yn aml wedi bod yn ganolog i'r ymgyrchoedd hysbysebu gan gynnwys y dewis mwyaf cyfarwydd â phoblogaidd o'r fersiwn parod o greffi (mwy am hwn nes ymlaen).

Darganfuwyd yr ymchwil hefyd fod greffi ddim yn gyfyngedig i'r bwrdd bwyta gyda 13% yn ei fwyta yn y car, 11% yn ei gario mewn fflasg, a 14% hyd yn oed yn mynd ag ef ar eu gwyliau. Daeth i'r amlwg bod 32% yn honni y byddai'n well ganddyn nhw gael greffi na pheint o gwrw, 29% yn ei ddewis dros wydraid o win, a byddai un o bob pump yn ei ddewis yn lle siocled (baswn yn cytuno â hyn!) Mae defnydd eraill o greffi yn cynnwys ei roi ar pizza, ei weini gyda phasta a reis, ei arllwys dros gremppogau, grawnfwyd, tatws trwy'u crwyn a 'hash browns'. Ceir defnydd mwy anarferol mewn rhannau eraill o'r byd hefyd - efallai bod rhai ohonoch wedi rhoi cynnig ar y



Poutine

'Poutine' poblogaidd yng Nghanada sy'n gymysgedd o sglodion, ceuled caws a greffi. Yn ne UDA mae bisgedi, sydd yn debyg i sgon sawrus, yn cael eu gweini gyda greffi wedi'i wneud o ddiferion braster o gig selsig â llaeth neu hufen.


Mae tarddiad yr enw 'greffi' yn aneglur; credir ei fod yn dod o'r gair Hen Ffrangeg 'gravé', sy'n golygu cawl wedi'i sesno neu saws. Ceir y sôn cynharaf amdano yn y llyfr coginio Saesneg o'r 14eg ganrif *The Forme of Cury* sef casgliad helaeth o rhyddiaethau Saesneg canoloesol; (y gair 'cyri' yn



Greffi gyda bisgedi

dod o'r Hen Ffrangeg 'queuerie'-'cookery').

Mae Delia Smith hefyd yn ystyried fod greffi yn rhan o'n treftadaeth, meddai 'mae'n dod o linell hir o gogyddion gofalus a oedd yn gwybod sut i baratoi saws â blas perffaith trwy ddefnyddio sudd gwerthfawr, gan ychwanegu tewychydd ar gyfer llyfnder hufennog a chynhwysion eraill sy'n gwella blas i ddarparu saws hardd'. Yn ei chyfres o lyfrau Cwrs Coginio Cyflawn gyhoeddwyd yn 1978 (yr wyf yn dal i'w defnyddio'n rheolaidd) mae'n datgan yn bendant 'nad oes angen cymysgeddau




greffi a gynhyrchir yn fasnachol na chiwbiau stoc. Ni fydd eu blasau cemegol yn cyfoethogi'r cig o gwbl. Daw'r prif flas o suddion cig, dŵr o datws neu lysiau eraill wedi'u berwi a stoc cartref, gyda rhywfaint o win, seidr neu ychydig bach o saws Swydd Gaerwrangon neu sos coch madarch o bosibl.' Mewn llyfr mwy diweddar mae Delia wedi newid ei meddwl ac yn awgrymu y gallai 'cynhwysion sy'n gwella blas' hefyd gynnwys bouillon stoc!

Efallai nad yw paratoi stoc cartref yn rhywbeth sy'n uchel ar eich rhestr 'rhaid ei wneud' ond mae rhai ryseitiau da ar gael ar wefan Waitrose os ydych am wneud ymdrech i baratoi a rhewi stoc ar gyfer y Nadolig. Rhaid i mi gyfaddef fy mod yn un sy'n hoffi arbrofi gydag ychwanegu 'hyrwyddwyr blas' wrth wneud greffi; gall hyn gynnwys defnyddio gwin coch, port neu vermout i ddadwydro'r tun rhositio, a chynnwys winwns, garleg, perlysiâu a gwreiddlysiau fel gwely i'r cig wrth rostio. Dwi hefyd yn estyn am unrhyw gonfennau sy'n y cwpwrdd fydd yn cyd-fynd â'r cig dwi'n ei goginio; gall hyn fod yn Marmite, saws Swydd Gaerwrangon, mwstard Ffrengig, saws soi, jeli llugaeron neu gyrens cochion, saws afal, miso gwyn, finegr balsamig gan ychwanegu confennau a ddewiswyd at y greffi yn gynnil a gan flas i'w wirio; ac, ydw, dwi weithiau'n defnyddio bouillon llysiau! Os nad am roi'r amser a'r ymdrech i baratoi greffi cartref, neu pan fydd angen greffi arnom ac nad oes suddion cig ar gael o rostio, dyma pryd y bydd twb y gronynnau enwog hynny sy'n llechu yn rhywle yng nghefn cwpwrdd

cegin dod yn handi (eto yma mae'n werth rhoi tro ar ychwanegu rhai hyrwyddwyr blas).

Yn ôl pob tebyg, wedi'u hysbrydoli gan eu gwragedd i wneud cynnyrch a fyddai bob amser yn gwneud greffi perffaith, ym 1908 manteisiodd dau o weithwyr halen Cerebos, Roberts a Patterson ar yr obseisiwn â greffi a chreu Bisto. Mae'r enw "Bisto" yn acronym ar gyfer "Browns, Seasons, and Thickens in One". Lansiodd yr ymgyrch hysbysebu gyntaf ar gyfer Bisto yn y *Daily Mail* ym 1910. Ym 1919, ymddangosodd y 'Bisto Kids' - bachgen a merch mewn dillad carpiog, a fyddai'n cael eu darlunio yn dal arogl Bisto ar yr awel ac yn anadlu allan yn hiraethus, "Ah, Bisto!" Gwelwyd Bobby Moore yn un o'r hysbysebion teledu cynnar a Gordon Banks, Anita Harris, Henry Cooper, John Pertwee, Billy Bremner, Dick Emery, Terry Wogan ac Alan Ball yn ymddangos mewn cyfres



o hysbysebion teuluol a ddangoswyd ar y teledu yn 70au. Bu Vanessa Williams a Julie Walters mewn cyfres o hysbysebion yn y 1990au ac fe ddefnyddiwyd cân Dean Martin 'Memories Are Made Of This' hefyd. Yn 2021 dadorchuddiodd Bisto ei hysbyseb deledu newydd gyntaf mewn chwe blynedd gan lansio ymgyrch i apelio at y genhedlaeth nesaf o Brydeinwyr a hybu apêl y rhost dydd Sul. Mae'n dangos dwy ferch ifanc yn rhannu greffi yn ystod plentyndod, pan yn oedolion ac yn famau, cyn cyflwyno eu plant i'r cynnyrch gyda'r hysbyseb yn gorffen gyda'r traddodiadol "aah! Bisto".

Yn ôl rheolwr marchnata Premier Foods chwaraeodd brandiau fel Bisto ran bwysig yn ystod amseroedd bwyd pandemig, wrth i bobl droi at gynhyrchion yr oeddent yn ymddiried ynddynt ac a allai roi cysur yn ystod cyfnod heriol.

Pediwch ag meddwl mai dim ond chi sy'n berchen ar dwb o'r gronynnau, fe wnaeth yr ymchwil ar ran Schwartz hefyd ddarganfod fod bod bron i un o bob dwy aelwyd yn prynu Bisto o leiaf unwaith y flwyddyn. Ond pa mor hir fydd hyn yn para? Yn ddiweddar mae defnyddwyr wedi bod yn cwyno am y cynnydd yn ei bris ac mae brandiau archfarchnadoedd eu hunain yn dod yn fwy poblogaidd.

Yn ystod parti barbeciw yn yr haf cafodd grŵp ohonom drafodaeth hir am rinweddau greffi da gan gytuno a fy ngŵr fod bwyty sy'n gweini 'jus' yn methu yn ei ddyletswydd i ddarparu elfen hanfodol o'r cinio dydd Sul traddodiadol, ac y dylech bob amser allu gofyn am, a derbyn jwg ychwanegol o greffi heb unrhyw betruster. Tybed faint ohonoch sy'n cytuno?

O DAN YR WYNEB

O DAN YR WYNEB

Martin Huws sy'n holi Pryderi Gwyn Jones, awdur nofel am athro sy'n rhan o ymgyrch i dalu'r pwyth yn ôl am 'un o gamweddau mwya hanes Cymru'.



Beth yw eich gwaith?

Athro ysgol uwchradd ydw i ers blynnyddoedd bellach.

Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?

Fe fues i'n cyfieithu am sbel ar ôl gadael y brifysgol, joban ddienaid, ond cefais waith amrywiol yn ystod hafau hir y coleg, gan gynnwys dyn hufen iâ, labrwr a pheintwr. Treuliais i rai wythnosau yn Little Chef Porthaethwy hefyd. Ahhh!

O ble rydych chi'n dod?

Cefais fy ngeni yn Aberystwyth a fy magu ym mhentref bach Llansannan yn Nyffryn Clwyd ac yna ym Mangor. Mae fy rhieni yn hanu o Ynys Môn.

Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?

Do, ar y cyfan. Roeddwn yn gwerthfawrogi'r addysg leol yn ysgol y pentref ac yna'r addysg uwchradd yn Ysgol y Creuddyn ger Llandudno. Cofiaf fod yr addysg uwchradd wedi fymestyn a'm cadw ar flaenau fy nhraed rywsut gan ei bod yn heriol. Fy mlwyddyn i oedd y gyntaf i sefyll arholiadau TGAU! Roedd y cyrsiau Lefel A yn swmpus iawn bryd hynny.

Roedd yna bethau eraill yn mynd â bryd rhywun yn y coleg ond roedd darlithoedd pobol fel Gwyn Thomas a Dafydd Glyn Jones ym Mangor yn adloniant ynddyn nhw eu hunain.

Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?

Cwestiwn mawr. Mae Gwenallt yn ei gerdd *Y Meirwon* yn dweud bod dyn sy'n cyrraedd ei hanner cant yn sylwedoli'r hyn a'i fowldiodd o fel person. Mae'r gymdeithas Gymreig y cefais fy magu ynddi felly yn sicr o fod yn ddylanwad mawr. Dylanwad arall yw fy rhieni, wrth reswm, fy nheidiau a fy neiniau.

Mae'r bobol yr ydw i wedi bod yn ymwneud â nhw bob dydd ym Maldwyn wedi dylanwadu arnaf, yn enwedig yr

hen do o athrawon pan oeddwn i'n athro ifanc.

Pa lyfrau ydych chi wedi eu hysgrifennu o'r blaen?

Penderfynais roi cynnig ar sgwennu llyfrau i blant yn eu harddegau yn trafod rhywbeth a oedd yn bwysig iawn i mi pan oeddwn yn iau, trenyrs! *Brenin y Trenyrs*, *Kaiser y Trenyrs* a *Tywysog y Trenyrs* ydy trioleg y trenyrs. Mae trenyrs Adidas, Puma a Nike yn boblogaidd iawn, yn tydyn nhw, ac felly roedd yn ymgais i fynd â'r Gymraeg i'r byd hwnnw.

O ble daeth y syniad cyn sgrifennu *Hei Fidel!*?

Wel, yr hedyn y tu ôl i'r nofel oedd dysgu hanes boddi Capel Celyn i fy nosbathiadau yn yr ysgol. Mae ymateb y disgyblion yn syfrdanol pan fyddwn ni'n trafod Tryweryn ac maen nhw'n cael trafferth credu fod y fath beth wedi digwydd.

Faint o her oedd ei sgrifennu hi?

Penderfynais ei hanfon i gystadleuaeth Daniel Owen yn Hydref 2021 er mwyn cael dedlein. Rhyw ddrafft gyntaf oedd honno mewn gwirionedd. Fe gefais gryn ganmoliaeth yn Eisteddfod 2022 ac un o'r beirniaid am fy nghwobrwy, ond es i'n ôl ati ac ailwampio tipyn arni a newid y diwedd.

Mae cael cybwysedd, datblygiad a momentwm mewn mwy na 80,000 o eiriau'n her, yn sicr, ac fe gymerodd oriau lawer i'w hysgrifennu. Collais i gownt!

Beth oedd y broses?

Wel, mi gefais ddarn mawr iawn o bapur o'r ysgol gynradd leol a rhoi cynllun bras arno, gan ei ddatblygu wrth fynd ymlaen. Mae pum thema'n plethu drwy'r nofel ac maen nhw'n troi fel olwyn yn eu tro. Mae'n debyg mewn ffordd i sgrolio ar gyfryngau cymdeithasol ... penodau byrion a rhywbeth newydd bob tro i'w weld.

Beth sy bwysicach, cymeriad neu blot?

Rwan 'ta, mae'r ddau'n bwysig, dwi'n siwr, ac yn ddibynnol ar ei gilydd. Dwi'n meddwl fod y 'dweud' yn bwysig ac mae gen i ddiddordeb neilltuol yn hynny.

Beth sy'n gwneud stori dda?

I mi, tipyn o symud a momentwm, hiwmor, yr annisgwyl a chydbywysedd!

Oes gennych chi rwtin sgrifennu?

Mae'n anodd cael amser pan fo rhywun yn dysgu ond mae'r gwyliau haf yn braf. Dywedodd rhywun fod gadael y gwaith sgrifennu, gan nodi'r camau nesaf yn bwysig er mwyn ailafael yn y gwaith, yn gwneud pethau'n llawer rhwyddach.

Beth yw eich barn am stad y nofel *Gymraeg*?

Cwestiwn mawr arall. Mae llawer o nofelau yn cael eu cyhoeddi y dyddiau yma. Mae llawer yn fathau arbennig o nofelau e.e. rhai difectif, sydd yn iawn, wrth

reswm, ac yn apelio at ddarlennwyr. Mae eraill yn ysgafn ac yn ddoniol. Dywedodd ffrind wrthyf ei fod yn meddwl fod llawer gormod o nofelau yn cael eu cyhoeddi! Un o'r nofelau gorau gen i yw *Awst yn Anogia* gan Gareth F Williams.

Pwy yw eich hoff awduron? Pam?

Gareth F Williams fel y nodais uchod. Hefyd rydw i'n mwynhau darllen nofelau Haruki Murakami. Mae'r busnes o 'blygu' realaeth yn ei lyfrau yn ddiddorol iawn i mi. Hefyd Milan Kundera, mae rhywbeth am ei arddull sy'n taro deuddeg.

Pa gyngor fydddech chi'n rhoi i awdur newydd?

Rhaid dechrau yn rhywle. Sgwennwch rywbeth ... cewch chi ei addasu wedyn ... ond mae'n rhaid cael rywbeth i lawr i ddechrau er mwyn ei addasu a'i wella wedyn.

Beth yw nodweddion dychanwr? O's digon o ddychan yng Nghymru?

Mae yna elfennau dychanol yn *Hei Fidel!*. Weithiau mae'n rhaid i ni'r Cymry fedru chwerthin am ein pennau ein hunain, yn does? Mae dychanwr da yn gallu defnyddio hiwmor yn ddeifiol i ddweud rhywbeth wrthym ni am ein bywyd heddiw. Os gall gynnig ffordd ymlaen hefyd, yna mae hynny'n fonws. Naoes, does dim hanner digon o dychanau yng Nghymru. Roedd y cylchgrawn *Lol* yn arfer gwneud joban dda iawn. Efallai ein bod yn genedl groendenau iawn!

Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd

Cawl a bara menyn neu dapas yn y bwyty neis yna yn Nolgellau.


Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?

Rydw i'n darllen, yn gwylio pêl-droed, yn boesio ac yn trio mynd i redeg yn weddol gyson.

Gyda llaw, diolch am y gwahoddiad i wneud cyfweiliad. Os oes rhywun wedi darllen *Hei Fidel!*, byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr ei farn amdani. Hwyl!

Dolen **Gwales:** <https://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781845279097/?lang=CY&tsid=1>

***Hei Fidel!*, Gwasg Carreg Gwalch, £9.99**



Gwaelod-y-garth ac Iolo Morganwg

Mae awdur o Waelod-y-garth wedi sgrifennu llyfr am ddisgynydd oedd yn fentor i Iolo Morgannwg.



Y newyddiadurwr a'r cyn-uwchddarlithydd, James Stewart, sy wedi sgrifennu *In Search of the Last Bard* am fywyd a gwaddol Edward Evan (1716-1798).

Wyres Edward Evan, Mary Evans neu Mary Kingsbury, oedd hen fam-gu tad-cu James.


'Rwy wedi sgrifennu'r llyfr am fy mod i'n credu ei fod yn gymeriad diddorol ac yn arwyddocaol yn hanes de Cymru,' meddai James.

Roedd Edward Evan o Don Coch, Aberpennar, yn fardd, gweinidog, ffermwr a cherddor fu'n bwysig yn hanes llenyddiaeth Gymraeg yn ne Cymru ac yn hanes Iolo Morganwg a'i awydd i greu Gorsedd Beirdd Ynys Prydain (1792) ac adfywio'r Eisteddfod.

Eisteddfod

Yn y pen draw, arweiniodd hyn at gychwyn yr Eisteddfod Genedlaethol fodern yn Aberdâr.

Dywedodd yr Athro Mary-Ann Constantine o Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru: 'Roedd bywyd Edward Evan adeg newidiadau deallusol ac economaidd fyddai'n effeithio'n bellgyrhaeddol yn ystod datblygiadau diwydiannol y ganrif ganlynol.



Lansio Gwobrau Busnes Ardal yr Eisteddfod

Yn rhan o'r dathliadau ar gyfer Diwrnod Shw'mae Su'mae yn gynharach fis yma, cyhoeddodd Menter Iaith Rhondda Cynon Taf bartneriaeth newydd sbon â'r Eisteddfod Genedlaethol, Helo Blod, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac Ymbweru Bro yn rhan o waddol yr Eisteddfod a gynhaliwyd yn yr ardal eleni.

'Mae portread James yn cynnig sawl mewnwelediad i'r ddeunawfed ganrif nid yn unig yng Nghwm Cynon ond yn ne Cymru.'

Camp yr awdur, meddai, yw helpu'r darlennydd i ddeall sut llwyddodd y patrymau a greodd y ddeunawfed ganrif i siapio ein byd heddiw.

'Roedd yn golygu llawer o waith,' meddai James, 'ymchwilio'n rhan amser o 2019 tan 2023 ac ymweld â llyfrgelloedd yn Aberystwyth, Rhydychen, Caergrawnt, Merthyr, Aberdâr a Chaerdydd. Hefyd fe fues i'n holi nifer o bobl am yr hyn wnaeth Edward Evan fel telynor, gwehydd, ysgolhaig, gweinidog Undodaidd ac yn y blaen.'

Clwb Golff

Mae plac glas er cof am Edward Evan wedi ei ddadorchuddio ar Ganolfan Clwb Golff Aberpennar. Yn bresennol roedd yr awdur, y Parchedig Eric Jones, cynrychiolydd yr Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon (roedd Edward Evan yn weinidog rhwng 1772 ac 1796), David Leslie Davies o'r Gymdeithas Hanes a Tommy Williams, Cadeirydd y Clwb Golff.

Yn ôl y Bywgraffiadur Cymreig, fe gafodd Edward Evan ei eni yn y Llwyd-coed, Aberdâr, ym Mawrth 1716, yn fab i Ifan ap Shôn ap Rhys, tyddynnwr a gwehydd.

Ar ôl dilyn crefft ei dad am dipyn aeth yn brentis saer coed at Lewys Hopcyn a ddysgodd y gynghanedd iddo.

Roedd yn briod ddwywaith; yn gynta yn 1744 â Margaret Thomas o Benderyn, fu farw yn Ebrill 1774, a'r ail dro yn 1776 â Mari Llewelyn o'r Rhigos, fu farw yn 1824, ac o'r ail briodas roedd dau fab, Edward (1776?-1862) a Rhys (1779-1876). Roedd Rhys yn dipyn o lenor ac Eisteddfodwr.

Yn ystod ei fywyd cyhoeddodd Edward Evan *Llyfr y Pregethwr*, cyfieithiad ar fesur cywydd gyda Lewis Hopcyn.

Ar ôl iddo farw cafodd ei gerddi eu cyhoeddi o dan y teitl *Caniadau Moesol* a Duwiol. Roedd argraffiad diweddarach o dan y teitl *Afalau'r Awen*.

Mae llyfr James ar gael ar y wefan: <https://lastbard.wales> ac mewn siopau llyfrau. Y pris yw £10.

MH

Mae'r cynllun yn gyfle i ddathlu'r Gymraeg ymysg busnesau a chwmnïau yn nalgylch yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystod y flwyddyn hyd at yr Eisteddfod, ynghyd â'r cyfnod yn dilyn yr ŵyl ei hun.

Mae'n gyfle hefyd i ddiolch i fusnesau a chwmnïau'r ardal am eu cefnogaeth a rhoi ffocws i'r hyn y gall y fenter iaith leol ei chynnig i'r sector preifat er mwyn annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg.

Meddai Osian Rowlands, Prif Weithredwr Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, 'Roedd yr Eisteddfod eleni ymysg y goreuon ers blynyddoedd lawer, ac roedd tref Pontypridd a'r ardal gyfan yn rhan enfawr o'i llwyddiant.

'Cafodd pawb a ddaeth i'r ardal groeso ardderchog gan fusnesau a chwmnïau ar hyd a lled y dalgylch. Rydyn ni'n awyddus i ddathlu hyn drwy lansio'r cynllun gwobrau busnes cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r Eisteddfod fel y sbardun i annog rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat. Diolch i'r holl bartneriaid am eu hawydd i fod yn rhan o'r cynllun sy'n rhan o waddol Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf eleni.'

Mae'r gwobrau wedi'u rhannu i bum categori:

Defnydd o'r Gymraeg: gwobr i fusnes neu gwmni sydd wedi datblygu'u defnydd o'r Gymraeg a chreu cyfleoedd i staff a chwsmeriaid i ddefnyddio ein hiaith

Defnydd gweladwy o'r Gymraeg: gwobr i fusnes neu gwmni a wnaeth ddefnydd creadigol o'r Gymraeg yn y cyfnod hyd at, yn ystod ac yn dilyn yr Eisteddfod

Gwobr arbennig: cyfle i wobrwyo clwstwr o fusnesau sy'n cydweithio neu sydd ar un safle a ddangosodd gefnogaeth i'r Eisteddfod a'r Gymraeg

Gwobr diolch lleol: gwobr arbennig wedi'i chyflwyno gan wirfoddolwyr lleol i ddiolch i fusnes neu gwmni a fu'n gefnogol o'r gwaith trefnu a chodi arian yn ystod y cyfnod hyd at yr Eisteddfod.

Gwobr Croeso i'r ŵyl: cyfle i'r rheini sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr Eisteddfod i enwebu busnes neu gwmni a ddangosodd groeso arbennig i Eisteddfodwyr yn ystod wythnos yr ŵyl

Mae'r manylion i gyd ar wefan y fenter iaith, <https://menteriaith.cymru/enwebu-busnes-2024/>. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw dydd Gwener 8 Tachwedd, a chyhoeddir y rhestr fer ddydd Llun 18 Tachwedd, i nodi 100 diwrnod ers Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.

Bydd y gwobrau'n cael eu cyflwyno mewn seremoni frestwast arbennig yn y Lido ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd, lleoliad Maes yr Eisteddfod eleni, fore Iau 5 Rhagfyr.

Am ragor o wybodaeth ewch i <https://menteriaith.cymru/> neu www.eisteddfod.cymru.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):

Mis Tachwedd:

3 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
10 - Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Andrew Jones

17 - Oedfa dan ofal Glenys ac Anthony Evans

24 - Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Wyn Samuel

Mis Rhagfyr:

1 - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion

8 - Oedfa yng nghwmni Sian Meinir (p.m.)

15 - Oedfa 9 Llith a Charol (5:00 p.m.)

22 - Nadolig yr Ysgol Sul

25 - Oedfa Bore'r Nadolig (am 10:00 a.m.)

29 - Dim Oedfa

---oooOOOooo---

Ar Sul y 10fed o Dachwedd y byddwn yn coffau meirwon y ddau Ryfel Byd eleni.

Diddorol yw sylwi mai "Sul y Cadoediad / Coffau Trueiniaid Rhyfel" a nodir ym Mlwyddiadur Undeb yr Annibynwyr [ynghyd a'i nodi fel y 25ain Sul wedi'r Pentecost!].

Ac ar y Sul yma, "*Sul y Cofio*", bydd dau funud o ddistawrwydd am 11 o'r gloch y bore o flaen cofebau ar draws gwledydd Prydain, yn nodi llofnodi'r cadoediad a ddaeth â'r Rhyfel Byd Cyntaf i ben ar 11 Tachwedd 1918.

Ac, wrth gwrs, ni fydd plwyf Pentrych yn wahanol i nifer o drefi a phentrefi eraill o fewn dalgylch Tafod Elai.

Dyma'r Gofeb sydd yn y pentref, ac fe fydd torchau'r pabi coch yn ei hamgylchynu bryd hynny:-



Er i mi yrru a cherdded heibio iddi dros gyfnod o 45 mlynedd bellach, mae'n rhaid i mi gyfaddef nad oeddwn, tan yn ddiweddar, wedi talu gormod o sylw i'r enwau oedd arni.

Ond fe newidiodd hynny wrth i ni ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, baratoi at ddathliadau 150 mlwydd oed yr adeilad presennol yn 2023.

Wrth chwilota yn yr oruwch ystafell yn y capel, ymysg lluniau rhai o gyn-weinidogion (a diacon!) o'r 19eg ganrif, a throad yr 20fed ganrif, sylwyd ar y ffram arbennig yma, y "Roll of Honour" chwedl y teitl, oedd yn cofnodi (yn Saesneg) enwau y bechgyn rheini, oedd a chyswllt a'r capel, a ymatebodd i alwad John

Williams, Brynsiencyn, a Lloyd George, ac a aeth, "For King and country", i ymladd yn ffosydd Ffrainc a thu hwnt.



Ac o edrych yn fanwl ar y llun, fe sylwch fod marc gyferbyn tri o'r enwau, gyda'r sylw yma o eglurhad ar ei waelod - "*have made the supreme sacrifice*".

Hynny, wrth reswm yn golygu, eu bod wedi colli eu bywydau yn y gyflafan.

Ac, o fynd yn ol at y Gofeb ym Mhentyrch, fe sylwch bod yr enwau yma wedi eu naddu ar yr ochr sydd yn wynebu allan tua'r ffordd - Horatio Lloyd Phillips, Thomas W Foxall a Llywellyn Morgan.

O edrych yn fanylach i weld a oedd peth o'u hanes ar gael, naill a'i ym mhapurau newyddion y cyfnod, neu ar y gwahanol wefanau byd-eang eu hapel erbyn hyn, dyma sylweddoli bod yna ychydig y gellid ei gasglu amdanynt.

Yn ol yr hyn a welais, ddaeth yr un ohonynt yn ol i'w cynefin wedi iddynt ymuno a'r fyddin - yn hytrach "*huno ymhell ohoni*", fel Hedd Wyn, a fu eu rhawd.

'Roedd Horatio Lloyd Phillips, Rhif Gwasanaeth 88188, yn Is-ringyll (Corporal) yn y Royal Field Artillery.

Fe'i clwyfyd mewn sgarmes, a bu farw, yn 23ain mlwydd oed, ar y 6ed o Ebrill 1918. Fe'i claddwyd yn y Fynwent Brydeinig yng Nghorffu.

Dyma sut y cyhoeddwyd y newyddion yn "Baner ac Amserau Cymru" rhifyn 27ain o Ebrill 1918 :-

"*Hysbysir fod y Corporal Horatio Lloyd Phillips, R.F.A., mab hynaf Mr. a Mrs. E. J. Phillips, Rose Cottage, Gwaelodygarth wedi marw mewn ysbetty yn Salonica,*"



Llun o'i garreg fedd a welir ar wefan Hanes Glofa'r Llan Pentrych.

Roedd Horatio yn un o deulu'r Philipiaid, (yn frawd i Trevor ac Eunice - dau y byddai aelodau hyn y Capel yn eu cofio'n dda) a'i dad, Evan James Phillips, yn actor a beirniad drama, yn organydd ac yn ddiakon ym Methlehem. (gweler peth o'u hanes yn Tafod Elai, rhifyn mis Mai 2024)

Dyma beth fyddai'r teulu wedi ei dderbyn yn dilyn colli'r mab.



(Llun arall o wefan Hanes Glofa'r Llan Pentrych)

Ail Is-ganwriad (Second Lieutenant) oedd Thomas William Foxall yn y Ffiwsilwyr Cymreig (Royal Welsh Fusiliers). 'Roedd ef yn 33 mlwydd oed pan gafodd ei ladd ar yr 2il o Hydref 1918, ac fe'i claddwyd ym Mynwent Filwrol Laventie, La Gorgue, Ffrainc. (A choeliech chi ddim fod Rue Bethléem yn tramwyo reit heibio'r fynwent yma!)

'Roedd yn fab i'r John a Mary Foxall, Gwaelod-y-garth, ac yn wr i Gwladys Foxall, "Brynteg", Ffynnon Taf. (Cofnodir i John Foxall, y tad, farw yn ystod 1916 hefyd.)

Y trydydd y cofir amdano yw'r Preifaf Llewellyn Morgan. Nid oes sicrwydd yn fy meddiant mai ef oedd milwr rhif 93635 o'r Ffiwsilwyr Cymrig (17eg Bataliwn) a fu farw ar y 12fed o Fedi 1918.

Ar wefan y "Forces War Records", fe gofnodir i un o'r un enw, a oedd yn byw ym Mhentyrch gael ei gladdu ym Mynwent Brydeinig Newydd Gouzeaucourt yn Ffrainc.

Gwelir y llun isod o'r fynwent:-



[Llun - gwefan Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad]

Yn ddiddorol ddigon, mae cofnod yn llyfr Cyfrifon (1908 - 1919) Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am ddau ohonynt, Horatio (rhif 19) a Thomas William (rhif 16), yn y cyfnod perthnasol yn 1916, ar yr un dudalen, gyda chyfraniadau misol yn cael eu gwneud yn eu henwau.



Y Cynhaeaf

Daeth Mr Coleman a Doug i gynnal ein gwasanaeth Cynhaeaf cyn hanner tymor a fe wnaeth ein hatgoffa am ystyr y Cynhaeaf. Diolch i bawb am eu cyfraniadau tuag at y Banc Bwyd.

Shwmae!

Dathlwyd Diwrnod Shwmae Su'mae ar draws yr ysgol drwy wisgo coch, cynllunio logo, creu poster, canu caneuon a llawer mwy!

Bethlehem Gwaelod y garth (parhad)

G	John Foxall	January	February	March	April
1	Foxall	John	1/1	1/1	1/1
3	Howells	Barbara	1/1	1/1	1/1
4	Pillme	Mary	1/1	1/1	1/1
5	Pillme	Sarah Jones	1/1	1/1	1/1
6	Jones	John	1/1	1/1	1/1
7	Chapman	Edna Jones	1/1	1/1	1/1
8	Howells	Elizabeth	1/1	1/1	1/1
9	Pillme	Sarah Jones	1/1	1/1	1/1
10	Foxall	Sarah	1/1	1/1	1/1
11	Jones	Shirley	1/1	1/1	1/1
12	Jones	Doris Jones	1/1	1/1	1/1
14	Foxall	Sarah Jones	1/1	1/1	1/1
15	Davies	Sarah Jones	1/1	1/1	1/1
16	Foxall	Sarah Jones	1/1	1/1	1/1
17	Howells	Mary	1/1	1/1	1/1
18	Howells	Barbara	1/1	1/1	1/1
19	Pillme	Barbara Jones	1/1	1/1	1/1
20	Pillme	John	1/1	1/1	1/1
21	Jones	William	1/1	1/1	1/1
22	Jones	William	1/1	1/1	1/1
23	Pillme	Barbara	1/1	1/1	1/1
24	Jones	Barbara	1/1	1/1	1/1
25	Pillme	Barbara Jones	1/1	1/1	1/1
26	Jones	Barbara	1/1	1/1	1/1
27	Pillme	Barbara Jones	1/1	1/1	1/1
28	Foxall	Sarah Jones	1/1	1/1	1/1

Wn i ddim yn lle, yn y Capel neu'r Festri, y gosodwyd y "Roll of Honour", ac nid oes, hyd y gwn, gofnod tebyg i'r rhai a fu'n ymladd yn yr Ail Ryfel Byd. Ni wn chwaith a fu i rai ohonynt gael eu lladd yn y gyflafan honno, ac a oes enwau perthnasol ar y Gofeb ym Mhentyrch?

110 o flynyddoedd ers dechrau'r Rhyfel Mawr, mae'r byd unwaith eto yn 2024 ar erchwyn ymladdfa a all ddinistrio ein heddiw a'n yfory.

Ond i'r tri a enwyd uchod, rhown y gair olaf i R Williams Parry:-

*"Nid fan hon y dwfn hunant, dros y môr
Dyrys maith gorffwysant;
Ond eu cofio'n gyson gânt..."*

[Yr Haf a Cherddi Eraill:
Rhan o gasgliad o englynion
"Ysgolhaig - Ef a'i frawd"]

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant



Banc Bwyd

Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at gasgliad ar gyfer Banc Bwyd Taf Elai. Dyma rai o aelodau'r Criw



Calan Gaeaf

Diolch i Ffrindiau Awel Taf am drefnu ein disgos Calan Gaeaf. Cafwyd llawer o hwyl yn dawnsio a bwyta mewn gwisgoedd gwych!



Dal dy Ddannedd

Diolch i Boom Cymru am wahodd criw o flyyddyn 3 i gymryd rhan yn y rhaglen Dal Dy Ddannedd. Fe gafon nhw brofiad ac amser arbennig! Mae pawb yn edrych ymlaen at wyllo'r bennod y flyyddyn nesaf.



Jambori

Bu blynyddoedd 3 i 6 yn chwerrthin, canu a dawnsio yn y Jambori gyda Martyn Geraint yn ddiweddar. Diolch hefyd i Martyn am ein cân arbennig!



Cymwynasgar gyda'r bwyd. Diolch i Mrs Burrows am fynd â'r bwyd i Capel Bethel.

Diwrnod Cenhedloedd Unedig

Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn dysgu am wahanol wledydd y byd wrth ddathlu Diwrnod Cenhedloedd Unedig ym mis Hydref. Bu'r plant ifancaf yn lliwio baneri, blasu bwydydd a mwynhau gweithgareddau celf a chrefft, a bu'r plant hŷn yn ymchwilio i ddarganfod ffeithiau diddorol am y gwledydd.



Diwrnod Shw'mae

Mwynheuodd y disgyblion gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddarganfod yr holl wahanol ffyrdd gallwn ddweud "Shw'mae" neu "Helo" yn Gymraeg. Llongyfarchiadau i Ddosbarth 7 am ddarganfod 27 gwahanol ffordd o ddweud "Shwmae"! Tipyn o gamp!



Gwasanaeth Adam Coleman

Diolch i Mr Adam Coleman, a Doug y ci, am ddarparu gwasanaeth diddorol i'r plant i ddysgu am stori Sacheus o'r Beibl ac am bwysigrwydd maddeuant.

Adran yr Urdd

Cafodd y plant gyfle gwych gan staff yr Urdd yn ddiweddar i addurno bisgedi Mr Urdd. Roedd y bisgedi'n edrych yn flasus dros ben!



Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Diwrnod Shwmae Su'mae 2024

I hyrwyddo diwrnod Shwmae Su'mae yn y gymuned fe aeth y Criw Cymraeg o amgylch siopau a busnesau Tonyrefail i rannu posteri i hybu'r defnydd o gyfarchion yn y Gymraeg. Yn ogystal fe aeth y criw ati i ddysgu cyfarchion syml i berchnogion y busnesau a'u cwsmeriaid. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i hyrwyddo'r dosbarthiadau siarad Cymraeg i oedolion sydd yn cael eu cynnal yn yr ysgol y tymor hwn.



Y Criw Cymraeg ar waith yn Nhonyrefail



Y Criw Cymraeg yn Theatr y Savoy

Gwasanaeth Cynhaeaf

Diolch yn fawr iawn i'r Parch. Evan Morgan o Gapel Salem Treganna am ddod i gynnal ein Gwasanaeth Diolchgarwch eto eleni. Mae Evan yn ffrind da i'r ysgol ac mae'r plant wrth eu boddau yn gwrandao ar ei wasanaethau. Diolch i ddisgyblion yr ysgol am eu haelioni mae'r holl nwyddau a gasglwyd wedi eu rhannu ag elusennau yng Ngilfach Goch a Thonyrefail. Diolch yn fawr i'r Cyngor Ysgol am eu help i ddidoli'r bwydydd.



Y Parch. Evan Morgan yn cynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch



Gweithdy Rhithiol Hanes Boddi Capel Celyn

Gŵyl Hanes Cymru i Blant

Fel rhan o arlwy Gŵyl Hanes Cymru i Blant cafodd disgyblion Blwyddyn 4,5 a 6 gyfle i wrando ar wers rithiol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ar hanes Tryweryn a boddi pentref Capel Celyn. Mae'r plant wrthi yn astudio'r hanes fel rhan o'u gwaith y tymor hwn.

Taith yr Iaith

Roedd disgyblion Blynnyddoedd 3 -6 wedi mwynhau sioe 'Taith yr Iaith' cwmni Mewn Cymeriad yn fawr iawn yn ddiweddar. Diolch i Llion Williams am ei berfformiad ardderchog llawn hiwmor. Roedd y sioe yn rhan o waith y tymor ar werthoedd yr ysgol - y tro hyn sef yr hawl gan bawb i siarad Cymraeg.



Cwmni drama Mewn Cymeriad yn perfformio Taith yr Iaith

Ymweld ag Ysgol Llanhari

Mae Blwyddyn 6 wedi ymweld ag Ysgol Llanhari ddwywaith yn ystod hanner tymor cyntaf yr hydref. Roeddynt wedi mwynhau'r gweithgareddau a drefnwyd iddynt ac fe roeddynt wedi cael cyfle i weld perfformiad yr ysgol o'r sioe Grease. Braf oedd gweld cymaint o gyn ddisgyblion yn cymryd rhan yn y sioe - a gafodd ganmoliaeth uchel gan Flwyddyn 6!



Blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Llanhari

Prynhawn Coffi Macmillan

Roedd y neuadd dan ei sang ar gyfer prynhawn codi i godi arian ar gyfer elusen Macmillan. Diolch yn fawr i'r holl rieni a ffrindiau'r ysgol am ddod i



Prynhawn coffi MacMillan

gefnogi. Roedd pob plentyn wedi cael cacen hefyd ac wedi cyfrannu at yr achos. Llwyddwyd i gasglu £394 - swm teilwng iawn!

Comisiynydd Plant Cymru

Cafodd ein Llysgenhadon Hawliau Plant gyfle i wrando ar Rocío Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru mewn sesiwn rithiol yn ddiweddar. Rhannwyd neges y Comisiynydd a thrafodwyd y gwaith o ganolbwyntio ar un elfen o hawliau plant yn fisol. Mae'r Llysgenhadon yn brysur ar waith yn yr ysgol yn trafod gyda, a chael barn y plant am hawl y mis.

Jambori

Roedd plant Blwyddyn 3 a 4 a'r staff wedi joio yn y jambori a gynhaliwyd yng Nghanolfan Chwaraeon y Ddraenen Wen. Diolch yn fawr i Martyn Geraint am ein diddanu ac i'r Urdd am drefnu.



Joio yn y Jambori!


Disgo Calan Gaeaf

Bu'r Cyngor Ysgol wrthi yn brysur yn trefnu Disgo Calan Gaeaf i'r disgyblion, diolch yn fawr iddynt am eu gwaith called. Roedd pawb wedi mwynhau ac wedi gwneud ymdrech arbennig gyda'u gwisgoedd.



Darlithiau Cymdeithas Waldo 2010 - 2024

Dyma gasgliad o ddarlithiau ac anerchiadau a drefnwyd gan Gymdeithas Waldo Williams rhwng 2010 a 2024. Ceir amrywiaeth o gyfraniadau, gan gynnwys dadansoddiadau o rai o gerddi'r bardd pwysig hwn ynghyd â chipolwg ar ei gymeriad drwy hanesion ac atgofion rhai a oedd yn ei adnabod.



Mae'n gyfrol ddifrif a gwerthfawr i unrhyw un a fyn ddeall mwy am Waldo Williams a'i waith ac yn gyfrol allweddol o ran dwyn sylw gwlad at un o ffigurau mwyaf ein cenedl ni. Cyfrol rauenus, hardd a chyfoethog o feddyliau a

1936 gan Gruffudd Owen

Mae Lloyd George wedi marw. Does gan y cyn Brif Weinidog ddim gwell i'w neud nag ymlacio efo peint a phapur newydd yn nhafarn hynafol y Pen-lan Fawr. Mae 'na luniau ohono ar hyd y waliau yn ei atgoffau o'r dyddiau gwell: Llun ohono yn ifanc ac yn radical; llun ohono yn agoriad swyddogol clwb golff Pwllheli, llun ohono yn hen ddyn yn sefyll ochr yn ochr â Hitler yn y Berchestgarden yn 1936. Ond mae rhywun arall yn galw heibio i'r Pen-lan Fawr, isio rhoi'r byd yn ei le...

Drama absŵrd am hanes, hen ddynion, a chysgod eu gweithredoedd drosom ni'i gyd...

Nos Iau 21/11/24

Clwb y Bont, Pontypridd

Tocynnau: <https://is.gd/HNIhcH>

dadansoddiadau treiddgar o
farddoniaeth, bywyd a bro Waldo.

Darlithiau Cymdeithas Waldo 2010 - 2024

Pris: £30.00 (Cludiant am ddim)

Siec yn daladwy **Y Faner Newydd**

Anfonwch eich archeb at:

Alun Ifans,

Erw Grug, Maenclochog,

Sir Benfro, SA66 7LB

CYMRU/LESOTHO

Croesawyd Litšitso Motšeremeli, Cyfarwyddwr Elusen Academi Rygbi Lesotho, i Glwb Rygbi Pentyrch ym mis Hydref. Mae nifer o fudiadau yn yr ardal yn cefnogi gwaith yr elusen a cyflwynwyd kit a rhoddion gan Glwb Rybi Pentyrch i hybu'r gwaith.



Litšitso yn derbyn tei y clwb gan
Huw Llywelyn Davies

Gwledd yr Ŵyl

Cyngerdd Nadolig CÔR

7.30yh Nos Wener, Rhagfyr 20fed

yn Eglwys Sant Helen, Caerffili

Tocynnau: £10

osian_llyr@hotmail.com



1

9

3

6

cyfarwyddo
Betsan Llwyd

mae ysbryd
David Lloyd George
ac
ysbryd **Adolf Hitler**
yn cerdded i mewn i dafarn.....

drama absŵrd
gan
Gruffudd Owen



← richard elfyn

iwan charles

Nos Iau 21/11/24
Clwb y Bont
Pontypridd
Tocynnau:
<https://is.gd/HNIhcH>

This is a Welsh language production, English précis will be available

Canllaw oed 14+

Canolfan Garth Olwg

GWEITHDAI TORCH

gyda

MILDDAIL

7YH

Tachwedd
21ain, 25ain, 29ain

Rhagfyr
2il, 6ed, 10ed

£45



Milddail

 **Cofrestrwch ar :- www.milddail.co.uk**

 **Canolfan Yr Olwg Centre**

 **gartholwgllc**

Heol Saint Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ

01443
570075

01443
570075



Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth

Wrth i ni barhau i hyrwyddo Teithio Llesol yn ein Hysgol, rydym yn parhau i gefnogi plant gyda'n bws cerdded dyddiol a'n Bws Beics pob pythefnos. Rydym yn falch bod nifer y plant sy'n defnyddio'r Bws Beics, a ddathlodd ei ben-blwydd cyntaf yn ddiweddar, yn mynd o nerth i nerth.



Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 wythnos wych ar eu hymwelid â Llangrannog ym mis Medi. Profiad gwych a bythgofiadwy i bawb!



Bu cystadlu gan fechgyn Blwyddyn 5 a 6 yng nghystadleuaeth bêl-droed yr Urdd. Roedd pob un wrth eu boddau yn herio eu hunain – da iawn chi!



Cafodd y Plant Meithrin ddiwrnod eiliadau arbennig iawn yn canu ac archwilio yn y coetir lleol. Mae'r mynydd a'r coetiroedd sy'n amgylchynu'r ysgol yn rhan hanfodol a phwysig o gwricwlwm ein hysgol, o'r feithrinf a i flwyddyn 6.



Cafodd ein disgyblion iau amser wrth eu boddau wrth ddysgu am wyddoniaeth ar ymweliad â Techniquet y tymor hwn.



Cafodd BL3 a 4 lawer iawn o hwyl yn Jambori'r Urdd! Diolch i'r Urdd ac i Martyn Geraint am ddarparu cyfleoedd mor werthfawr.



Mae dysgu am ein hamgylchedd yn thema bwysig barhaus i ni ar draws yr ysgol. Diolch i Dŵr Cymru am eu gweithdai ac am rannu'r neges am bwysigrwydd arbed dŵr.



Nid oedolion yn unig sy'n cael hwyl! Cawsom noson bingo lwyddiannus iawn yn yr ysgol a drefnwyd gan ein CRhA ffyddlon a gweithgar. Diolch iddyn nhw ac hefyd i Dafarn Gwaelod y Garth am eu cefnogaeth.



Cawsom ddiwrnod o ddysgu pwysig ar Hydref 18 wrth i ni ddewis gwisgo coch i ddangos y cerdyn coch i hiliaeth.



Am ddathliad arbennig ar ddiwrnod Shw'mae Su'mae! Daeth pob ohonom ag eitem i'r ysgol a oedd yn bwysig i ni o ran ein Cymreictod ni. O grys Cymru i hen sgerg nain i lwy garu, braf oedd cael dysgu gymaint am Gymreictod ein gilydd. Shw'mae Su'mae yn wir!



Cawsom gyfle gwych i ddod at ein gilydd fel cymuned yn ystod wythnos olaf hanner tymor ein dathliad cynhaef ysgol gyfan. Diolch i Gapel Bethlehem am ganiatáu i ni ddefnyddio'r capel i fynegi ein diolch. Rydym yn ddiolchgar am bob rhodd i'n Gŵyl Banc Bwyd Caerdydd yn yr hydref.

Menter Caerdydd



Diwrnod Shwmae Su'mae ac Ymgyrch Hapus i Siarad

Diolch i bawb ddaeth at ei gilydd i ddathlu Diwrnod Shwmae Su'mae ar 15 Hydref. Roedd yr ymateb i'r ymgyrch yn well nag erioed eleni gydag ysgolion, mudiadau a chymdeithasau'n cynnal gweithgareddau i ddathlu'r Gymraeg. Fel rhan o ddathliadau'r diwrnod, aeth swyddogion Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg i ymweld â busnesau lleol er mwyn eu hannog i ymuno â chynllun 'Hapus i Siarad'.

Mae'r ymgyrch, sy'n bartneriaeth rhwng Mentrau Iaith Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cynnig cymorth ac adnoddau i siopau a busnesau bach lle mae aelod o staff yn siarad Cymraeg. Mae'r pecyn adnoddau yn cynnwys poster i'w arddangos yn y ffenestr a bathodynau i ddangos bod y staff yn 'hapus i siarad' Cymraeg â chwsmeriaid.

Ymhlith y busnesau sy'n cymryd rhan yn y cynllun ym Mro Morgannwg mae Paletta Pizza, Crafted Arts Jewellery, Miss Holmes a Front Room yn y Barri, a Foxy's Deli, Stwff / Stuff ac Arth (Stiwdio Chwys a Chryfder) ym Mhenarth. Mae poster 'Hapus i Siarad' hefyd i'w gweld mewn siopau yn y Bont-faen, diolch i waith gwych gan ddisgyblion Ysgol Iolo Morganwg.

Yng Nghaerdydd mae nifer o fusnesau ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen wedi ymuno â'r cynllun: Oriol Jones, Savers, Beanfreaks, Hudo Lounge, Y Corp, Ffloc, Let Them See Cake, Tafarn Y Lansdowne yn ogystal â chaffi Snails yn Rhiwbeina a Iechyd Da a Siop y Felin yn yr Eglwys Newydd. Mae Caban ym Mhontcanna a Cant a Mil ar Heol Whitchurch hefyd yn 'Hapus i Siarad'!

Ydych chi'n gwybod am fwy o siopau neu fusnesau lleol lle mae'r staff yn awyddus i sgwrsio yn Gymraeg? Cysylltwch!

Gweithgareddau Mis Tachwedd

Gweithdai Gwyddoniaeth

Lliwiau fydd thema Gweithdai Gwyddoniaeth mis Tachwedd yng nghwmni SparkLab. Cynhelir y sesiynau, sydd ar gyfer plant ym mlyneddod 1 i 6, yn Ysgol y Berllan Deg (12 Tachwedd) ac Ysgol Pencae (13 Tachwedd). Pris: £12.00.

Noson o Gerddoriaeth Glasurol

Bydd cyfle i fwynhau noson yng nghwmni enillydd Gwobr Goffa Osborne Roberts yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd eleni mewn cyngerdd glasurol ym Mhenarth. Bydd Manon Ogwen Parry, sy'n gyn ddisgybl o Ysgol Bro Morgannwg, yn perfformio nos Sadwrn, 16 Tachwedd ym Mhafiliwn Pier Penarth yng nghwmni'r tenor ifanc Archie Buchanan a'r côr dwyieithog Criw Canu Penarth. Mae'r tocynnau ar gael ar wefan Menter Iaith Bro Morgannwg. Bydd hon yn noson i'w chofio gyda cherddoriaeth gan Mozart, Puccini, Verdi, Berstein, Eric Jones a Meirion Williams. Pris: £15.

Sesiynau Aromabalans a Gofal Croen

Hoffech chi roi tro ar gynnyrch gofal croen organig, dysgu am olewon hanfodol a chlywed sut y gallwch ddefnyddio adweithgwylio i helpu lleddfu symptomau annwyd? Dewch i fwynhau awr o ymlacio a sgwrsio yng nghwmni Kelly Lewis. Mae dewis o ddwy sesiwn – un ar Zoom (nos Wener, 22 Tachwedd) ac un



Dadleoli Shwmae Hanner Marathon Caerdydd

yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina (bore Llun, 25 Tachwedd). Mae'r niferoedd yn gyfyngedig felly y cyntaf i'r felin! Pris: Am ddim.

Sgwrs y Mis

Y Mabinogi Ddoe a Heddiw fydd testun Sgwrs y Mis, nos Lun, 25 Tachwedd wrth i ni groesawu'r Athro Sioned Davies i'n cyfarfod Zoom. Byddwn yn clywed am rai o'r cymeriadau a themâu sy'n gyfrifol am apêl oesol y chwedlau a'u poblogrwydd yng Nghymru a thu hwnt. Pris: Am ddim.

Cadwch y Dyddiad:

Bore Gwener, 6 Rhagfyr – bore i ddysgwyr yn Sain Ffagan ar y cyd â Dysgu Cymraeg Caerdydd a'r Amgueddfa i ddathlu'r Nadolig. Am ddim.

Dydd Sadwrn, 7 Rhagfyr – Groto Siôn Corn yn yr Hen Lyfrgell. Rhaid cofrestru o flaen llaw! £8

Bore Llun, 16 Rhagfyr – Cyngerdd Nadolig Mewn Tiwn yng nghwmni Trystan a Siân Francis yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina. Am ddim ond croesewir cyfraniadau.

Gwefan: mentercaerdydd.cymru

Facebook: [@m.caerdydd](https://www.facebook.com/m.caerdydd) Instagram: [@mentercaerdydd](https://www.instagram.com/mentercaerdydd)

E-bost : post@mentercaerdydd.cymru Ffôn: 029 2068 9888



GROTO SIÔN CORN

RHAGFYR 7

@ YR HEN LYFRGELL,
YR AIS, CF101BH

10:00-16:30

10:00-11:00	11:00-12:00
12:00-13:00	13:30-14:30
14:30-15:30	15:30-16:30

£8 GROTO SIÔN CORN

Yn Cynnwys:

Cwrdd â Siôn Corn

Anrheg gan Siôn Corn

Gweithgaredd crefft

Rhaid archebu a sicrhau
slot amser o flaen llaw.

www.mentercaerdydd.cymru

Ysgol Creigiau

Cystadleuaeth CogUrdd a PhobUrdd

Llongyfarchiadau i Math, Awen, Eiry ac Erin (Dosbarth 6) a fu'n cystadlu yng nghystadlaethau CogUrdd a PhobUrdd yn yr ysgol fore Llun, 21ain Hydref. Roedd safon y coginio yn uchel dros ben ac roedd pob 'myffin' melys a 'wrap' blasus wedi creu argraff fawr ar y beirniad, Mrs Brown, Rheolwr Arlwyio'r Ysgol. Wedi awr o goginio fore Llun cyhoeddwyd mai Erin oedd enillydd CogUrdd ac Awen oedd enillydd PobUrdd. Bydd y ddwy yn cynrychioli'r ysgol yn rownd rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn Ysgol Plasmawr ar 27ain Tachwedd. Pob lwc ferched!



Erin, enillydd
CogUrdd

Awen a Math gyda'u
Myffins Blasus!

Disgo Galan Gaeaf

Nos Iau, 24ain Hydref, trefnodd Cyfeillion yr Ysgol ddisgo Calan Gaeaf yn neuadd yr ysgol. Roedd y neuadd dan ei sang gyda gwrachod, sgerbydau a phob math o greaduriaid brawychus eraill! Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am eu gwaith caled yn trefnu'r disgo.

Gwibdeithiau Ysgol

Aeth disgyblion Dosbarth 2 a Class 2 i ymweld â Chastell Caerdydd i gymryd rhan mewn gweithdy am Chwedlau Cymru. Roedd marchog wedi adrodd hanes Dinas Emrys a'r dreigiau gwyn a choch iddynt. Cawsant gyfle i edrych ar arteffactau o'r cyfnod canoloesol ac aethant o gwmpas y castell a'i diroedd. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr. Aeth Dosbarth 1 a Class 1 i Barc Treftadaeth y Rhondda. Aethant o dan y ddaear i ddysgu am fywyd glowyr 'slawer dydd ac yna cawsant reid yn ôl i



Dosbarth 2 yng Nghastell Caerdydd



Dosbarth 1 ym Mharc Treftadaeth y Rhondda

fyny i'r wyneb ar drên. Cymeron nhw ran mewn gweithdy yn edrych ar hen deganau a dysgon nhw sut roedd pobl yn golchi dillad ers talwm. Roedd pawb wrth eu boddau. Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Amgueddfa Lofaol Cymru 'Big Pit' i ddysgu mwy am y Diwydiant Glo yng Nghymru a'r cymunedau glofaol. Roedd pawb yn gytûn bod y daith yn un ddiddorol tu hwnt.



Dosbarth 6 yn Amgueddfa Lofaol Cymru

Dathlu Ymdeoliad John

Mae ein Swyddog Croesi Ffordd, John Davies, wedi penderfynu rhoi ei ffon lolipop gadw ar ôl gwasanaethu cymuned yr ysgol am 34 o flynyddoedd! Ddydd Iau, Hydref 3ydd, fe wnaethom wahodd John a'i wraig, Hazel, i'r ysgol am brynhawn o ddiolch iddo am ei wasanaeth a'i ofal. Cyflwynodd pob dosbarth gerdyn wedi'i wneud â llaw a dymuno'n dda iddo. Canodd y disgyblion hynaf gân i John ac arhosodd disgyblion Blwyddyn 6 i rannu ei dê prynhawn gan ddiolch iddo am ei garedigrwydd ac am eu cadw'n ddiogel. Daeth swyddogion o



Diolch John gan y Dosbarth Derbyn

Gyngor Caerdydd ac aelodau o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon i rannu yn y dathliad. Cyflwynwyd anrhegion i John gan y staff a gan ein teuluoedd a'r Cyfeillion. Ar ddiwedd y prynhawn, llinellodd ein disgyblion a'n teuluoedd y llwybr a'r stryd i dywys John at ei sesiwn olaf ar groesfan yr ysgol. Rydym i gyd yn dymuno ymdeoliad hapus, hir ac iach i John. Diolch John am bopeth!

Twrnamaint Pêl-droed yr Urdd

Yn ddiweddar aeth 31 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 i gystadlu yn Nhwernamaint Pêl-droed yr Urdd yng Nghaerdydd. Chwaraeodd pob un yn wych. Diolch i Mrs Hussey, Mr Williams a Mr Snell am roi'r cyfle iddynt.



Pel-droedwyr Blwyddyn 5 a 6

Tenis

Bob bore Mercher bu Jon Sedgemore, hyfforddwr Clwb Tennis Creigiau, yn ymweld i gyflwyno sesiwn tenis i ddisgyblion Blwyddyn 3, 4 a 5. Cafodd pawb amser gwych yn dysgu sgiliau newydd.



Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

Croeso nôl

Hoffem estyn croeso cynnes i holl ddisgyblion a staff yr ysgol wrth i ni ddechrau blwyddyn gyffrous arall. Mae 46 o ddisgyblion newydd wedi ymuno â ni yn Nosbarth Jac y Jwc.

Cynghorau lu

Mae'r mis hwn wedi bod yn un prysur wrth i ni ethol aelodau i weithio ar gynghorau'r ysgol. Mae pob cyngor a'r Senedd wedi cwrdd ac mae cynlluniau cyffrous ganddynt am waith y flwyddyn.

Gwasanaeth Mr Colman

Daeth Mr Colman a'i gyfaill Doug i gynnal gwasanaeth yma. Fe ddysgom am bwysigrwydd helpu'n gilydd a

Ysgol Creigiau (Parhad)

Diwrnod Shwmae / Su'mae!

Ddydd Mawrth, 15fed Hydref, dathlon ni 'Diwrnod Shwmae/Su'mae' yn yr ysgol drwy gael hwyl yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau Cymraeg. Yn y prynhawn cafodd disgyblion CA2 ddisgo Cymraeg yn y neuadd. Am hwyl a sbri (a sŵn)!

Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Diolch i'n teuluoedd an eu cyfraniadau i 'Dangoswch y Cerdyn Coch i Hiliaeth'. Bu'r disgyblion yn brysur drwy'r dydd yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn gysylltiedig â'r Diwrnod Gwisgo Coch. Casglon ni £269.20 - diolch am eich cyfraniadau.



Dosbarth 5 yn cefnogi Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Dawns Cyfeillion yr Ysgol

Cynhaliodd CRhA Cyfeillion Creigiau ddawns lwyddiannus iawn ar y cyd gyda Creigiau23 ddydd Sadwrn, 12fed Hydref. Roedd hi'n noson bleserus iawn a chodwyd £3,380 i'r ysgol - anhygoel. Diolch i bawb a fynychodd, gobeithio eich bod wedi cael amser gwych. Diolch i Tony Crane, Stefan Iles a Joe Emms o Creigiau23 a diolch enfawr i Claire Coxon am drefnu'r ddawns a sicrhau bod pawb yn cael noson fythgofiadwy. Gobeithio y cawn ni ddawns arall flwyddyn nesaf!

chydweithio i oresgyn anawsterau. Diolch Mr Colman.

Nosweithiau Cwrdd â'r Athro

Roedd y dosbarthiadau dan eu sang ar nosweithiau cwrdd â'r athro. Roedd rhieni a gwarcheidwaid yn awyddus i glywed beth fyddai eu plant yn ei wneud yn eu dosbarthiadau newydd. Diolch am eich cefnogaeth.

Parti Pwll Pontypridd

Aeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i 'Parti Pwll Ponty' i fwynhau yn y Lido gydag ysgolion eraill ein dalgylch. Does dim byd gwell na chwarae yn y dŵr wrth wrando ar gerddoriaeth Cymraeg!



Bore Coffi Macmillain

Diolch i bawb daeth i'n bore coffi i gasglu arian ar gyfer elusen Macmillan.

Trawsgwlad

Cymerodd Tîm Trawsgwlad Blwyddyn 5 a 6 rhan yn Ras Trawsgwlad Heddlu De Cymru- Ras yn Erbyn Casineb. Ymdrech wych gan bawb!

Comisiynydd Plant Cymru

Mae ein Llysgenhadon ar gyfer Hawliau Plant wedi cwrdd gyda Chomisiynydd Plant Cymru i drafod hawliau..Hawl y mis – Yr hawl i rywun wrando arnat ac i gael dy gymryd o ddifri.



Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd

I gefnogi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd ar ddydd Iau'r 10fed o Hydref trefnodd y Cyngor Iechyd a Lles yr ysgol i ddisgyblion gwisgo dillad melyn neu wyrdd. Trafodon ni sut y gallwn ni gefnogi lles meddwl ein gilydd o fewn yr ysgol.

Diwrnod Shwmae Sumae

Trefnodd y Criw Cymraeg gweithgareddau hwylus i'r plant i ddathlu diwrnod Shwmae Sumae. Cafwyd hwyl a sbri wrth siarad Cymraeg.

Pêl-droed yr Urdd

Ymdrech arbennig gan flwyddyn 5 a 6 yng Nghystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd! Hyfryd oedd cael cyn-ddisgybl Ysgol Evan James yn dyfarnu un o'n gemau hefyd!



Gŵyl Morfydd Owen

Aeth bl.3 a 4 ar orymdaith o amgylch Pontypridd fel rhan o ŵyl Morfydd Owen. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r holl blant a theuluoedd a ymunodd â ni yn y Muni i ddathlu bywyd Morfydd Owen. Roedd y plant yn wych.



Cywion

Roedd yr ysgol yn ffodus iawn i groeso 10 aelod newydd dros dro i'r ysgol. Daeth 10 wy i ymweld â ni cyn iddynt ddeor. Aeth y cywion bach ar ymweliad i bob dosbarth cyn mynd yn ôl i fyw ar y fferm.



acapela

acapela Pentyrch

Nos Iau 28 Tachwedd
Pedair

acapela.co.uk

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau



Croeso i'n plant Meithrin newydd

Hyfryd yw ymgartrefu 32 o blant yn ein dosbarth Meithrin. Mae pawb wedi setlo'n wych. Rydym yn cynnig llyfryd Ionawr, Ebrill a Medi 2025 (unwaith mae'ch plentyn yn 3 oed). Cysylltwch am fwy o wybodaeth.



Parti Pwll Ponty

Roedd Blwyddyn 6 wrth eu boddau ym Mharti Pwll Ponty ar ddechrau eu blwyddyn olaf yng Nghastellau! Diolch i Osian a Menter Iaith RhCT am drefnu.



Gweithdai STEM

Cafodd blwyddyn 5 gyfle gwych i fynychu Cynhadledd Allgymorth STEM 2024 ym Mhrifysgol De Cymru. Diolch yn fawr am y croeso a'r profiadau arbennig.



Ymweliad Mr Coleman

Diolch yn fawr i Mr Coleman a Doug o'r Eglwys Gymunedol leol 'CF38' am wasanaeth arbennig. Mae'r plant wrth eu bodd yn gwrando ar eich straeon a negeseuon pwysig.



Clwb Codio

Mae gennym Glwb Codio yn rhedeg bob dydd Mawrth ar gyfer unrhyw un ym mlynnyddoedd 3-6 sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau rhaglennu.



Diwrnod 'Helo Melyn'

Fe wnaethon ni ddathlu 'Helo Melyn' (Hello Yellow) eto eleni i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Roedd y plant yn edrych fel cae o gennin pedr hardd!



Gweithdy Pensaerniaeth

Datblygodd disgyblion Cam Cynnydd 3 eu dealltwriaeth o siapiau 3D a thema'r tymor (Adeiladau), wrth gymryd rhan mewn

gweithdy pensaerniaeth yn neuadd yr ysgol. Roedd y disgyblion yn gweithio mewn timau, yn dilyn cyfarwyddiadau i adeiladu ciwboïdau, ac yna eu trefnu i ffurfio castell!



Llwyddiant yn Eisteddfod y Cymoedd

Llongyfarchiadau enfawr i Gwenno ac Elan ddaeth yn ail yn unawdau Eisteddfod y Cymoedd!



Jambori

Diolch yn fawr i'r Urdd, Martyn Geraint a'r band am ein gwahodd i ganu a dawnsio gyda nhw yn Jambori Morgannwg Ganol. Cafodd bawb hwyl ddi-ri!



Disgo Calan Gaeaf

Diolch i'r GRhaA am drefnu disgo Calan Gaeaf i'n disgyblion. Roedd pawb wrth eu bodd yn dawnsio a chwarae gyda'u ffrindiau yn eu gwisgoedd rhyfeddol.

Disgo Calan Gaeaf Clwb y Bont

Diolch i Menter Iaith RhCT am drefnu disgo Calan Gaeaf yng Nghlwb y Bont, Pontypridd. Cafodd y disgyblion gyfle i chwarae gemau gwych a dawnsio i gerddoriaeth Gymraeg!



Rhoddion Banc Bwyd Y Cynhaeaf

Diolch yn fawr iawn i'n plant, rhieni / gwarcheidwaid, staff a ffrindiau'r ysgol am eu cyfraniadau hael i'r banc bwyd eleni.

Ein Cynghorau Ysgol

Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion a etholwyd ar y Cynghorau Ysgol gan eu cyfoedion.

Meithrinfa Ddydd Garth Olwg Pontypridd



Recriwtio Staff

Amryw o swyddi ar gael

Gallu siarad Cymraeg yn hyderus?

Ishe gweithio gyda staff cyfeillgar, gweithgar a phrofiadol!

Cyflog £11.44 yr awr i bawb dros 16 oed neu

Graddfa cyflog uwch os yn gymwys

Cyfleoedd i fynychu hyfforddiant a chymwyster pellach

Rydym yn chwilio am unigolion brwdfrydig ac ysgogol i ymuno â'r tîm

Am ragor o wybodaeth am yr holl swyddi gwag ewch i www.meithrin.cymru/swyddi

07494491763

Swyddi i Bawb!

Mae Meithrinfeydd Mudiad Meithrin (MCC) ar draws Cymru yn chwilio am staff gyda chymwyster gofai plant i weithio llawn amser, rhan amser ac i weithio yn ystod gwyliau ysgol yn ein Meithrinfeydd. Rydym hefyd yn chwilio am staff Gweinyddol

#meithrinmudiad #meithringysie #jolegwalia

[/MudiadMeithrin](https://www.facebook.com/MudiadMeithrin) [@MudiadMeithrin](https://www.instagram.com/MudiadMeithrin) www.meithrin.cymru

Ymunwch â ni nawr!

AWYDD HYFFORDDI / GWIRFODDOLI?



Cofrestrwch eich cluddordeb ledd



Mae'r Adran Chwaraeon yn cynnig amryw o gyfleoedd gwirfoddoli drwy hyfforddi mewn ysgolion, clybiau cymunedol, cystadlaethau a gweithgareddau gwyliau.

PAM?

- Cit
- Tâl
- Profiadau
- Cymwysterau

"Gweithio gyda'r Urdd yw'r ffordd i fynd am ddyfodol mewn chwaraeon, a chael profiadau i ddysgu."

- KIANNA BARRIE



CYSYLLT WCH GYDA

gwirfoddoli@urdd.org

urdd.cymru/gwirfoddoli



MIRI MAWR TACHWEDD



DIGWYDDIAD AM DDIM I BLANT MEITHRIN A'U TEULUOEDDI!

BORE O HWYL MIRI MEHEFIN GYDA MEL O GLWB CARU CANU, LLWYTH O WEITHGAREDDAU A CHREFFTAU I BAMB!

27 TACHWEDD 2024

CANOLFAN HAMDDEN LLANTRISANT

10:00 - 12:00

SGANIWCH Y COD QR NEU EWCH I'R GWEFAN ISOD I GOFRESTRUI

WWW.MENTERIAITH.CYMRU

GIG DWYIEITHOG

Paid Gofyn + Cwmalele



19.30 - 22.30
NOS SADWRN
09-11-2024

TOCYNNAU ARLEIN

£8 / £10 AR Y DRWS
TICKETSOURCE.CO.UK/CLWB-Y-BONT

WWW.CLWB.Y.BONT.CYMRU



Ysgol Garth Olwg



Eisteddfod 2024

Gair gan y Prifathro:

Fel ysgol rydym yn ymfalchïo am y modd wnaethom ni gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd! Fel ysgol codwyd tua £13,000 tuag yr Eisteddfod. Roedden ni fel ysgol hefyd yn falch iawn i noddi'r goron eleni a braf iawn oedd gweld rhywun lleol yn ennill. Roedd 150 o staff a disgyblion wedi cymryd rhan mewn dros 40 o gystadlaethau, perfformiadau a digwyddiadau, sydd yn wych! Llongyfarchiadau a diolch yn fawr i bawb!

Un o uchafbwyntiau'r Eisteddfod, heb os, oedd gweld disgyblion presennol a chyn-ddisgyblion, athrawon, rhieni a pherthnasau yn dod at ei gilydd i gystadlu yn y gystadlaethau 'Côr Newydd'. Roedd safon y gystadlaethau yn uchel ac roedd perfformiad y côr yn ysgubol! Profiad gwych i bawb oedd wedi cymryd rhan ac yn atgof am byth!



Cafodd Morgan wythnos hynod o brysur a llwyddiannus dros ben.

Nid yn unig bu'n cystadlu yn yr wythnos ond bu hefyd yn cyfeilio ar y piano a pherfformio yn rhai o'r seremonïau fel ensemble Gwasanaeth Cerdd Sir Rhondda Cynon Taf.

Derbyniodd Morgan yr ail wobwr yn y gystadlaethau Gwobr Goffa Eleri Evans. Llongyfarchiadau mawr iawn i ti.

Yn ystod yr wythnos roedd Morgan ac Elis hefyd wedi perfformio ar Lwyfan y Maes fel rhan o Fand Chwyth Gwasanaeth Cerdd RhCT.

Tair arall cafodd Eisteddfod brysur oedd Miley, Sara a Cadi.

Yn ystod yr wythnos perfformiodd Sara a Cadi yn y sioe Eisteddfodol 'Nia Ben Aur'. Roedd y ddwy wedi actio a chanu'n wych ac roedden ni fel ysgol yn hynod o falch o'u perfformiadau. Roedd Sara a Cadi hefyd wedi cystadlu yn



y gystadlaethau unawd o Sioe Gerdd. Roedd perfformiad y ddwy yn wefreiddiol. Da iawn ferched.

Yn ystod yr wythnos bu Miley hefyd yn brysur yn perfformio monolog a bu hefyd yn perfformio ar y band stand yn y parc. Ar ôl yr holl berfformiadau, yn sicr bydd Miley'n cofio'r Eisteddfod am flynyddoedd i ddod!

Roedd y tair hefyd wedi perfformio'n wych yn 'Tiwn y Teulu' yn y babell Encôr. Da iawn ferched am yr holl waith called.



Hyfryd oedd gweld criw'r Ysgol Ganol, Uchaf a Hyn yn perfformio gyda'r côr ieuenctid. Roedd gweld pawb yn dod at ei gilydd yn dod a balchder i ni fel ysgol!



Perfformiad hyfryd!

Yn perfformio yn y gystadlaethau parti Alaw Werin ac yn ennill y drydedd wobwr yn y gystadlaethau oedd merched o'r Ysgol Uchaf a Hyn. Canon nhw'n swynol iawn




ac roedd yn gystadlaethau agos iawn. Da iawn ferched!

Perfformiad anhygoel gan y merched yn y gystadlaethau dawnsio. Criw talentog iawn! Bu'r merched yn dawnsio yn y band stand hefyd. Da iawn chi ferched!



Dawnsiodd Seren Hughes ac Annabelle Mountjoy yn arbennig yn y gystadlaethau dawnsio unigol. Merched talentog tu hwnt!



Llongyfarchiadau mawr i Catrin a Morgan oedd wedi perfformio ar lwyfan yr Eisteddfod yn y gystadlaethau 'Ar ei Newydd wedd'. Roedd hwn yn gystadlaethau newydd sbon ac roedd perfformiad Catrin a Morgan yn arbennig iawn. Enillion nhw'r drydedd wobwr yn y gystadlaethau. Da iawn chi!

Cymrodd Catrin England ran yn y gystadlaethau unawd 16-19 hefyd. Llongyfarchiadau i ti Catrin am Eisteddfod lwyddiannus iawn!

Aled a Gwion Widgery o'r Ysgol Ganol, ynghyd a disgyblion ysgolion Rhondda Cynon Taf, oedd wedi agor y Babell Lân fore Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod. Darllenon nhw gerdd hyfryd oedd wedi ei chreu gyda chymorth Elinor Wyn Reynolds. Da iawn Aled a Gwion.



Yn ogystal â thalentau canu, actio a dawnsio yng Ngarth Olwg, mae gennym feirdd talentog yn ein plith hefyd. Da iawn i'r beirdd talentog a gymerodd rhan yn Nhalwrn y Beirdd yn y Babell Lân. Cerddi anhygoel!



Disgyblion eraill oedd wedi cystadlu yn unigol oedd Gwennan Jones yn y gystadlaethau Alaw Werin 12-16 a Lilian Facey yn yr Unawd Alaw Werin dan 12. Perfformiadau swynol a hyfryd a dylech chi fod yn falch iawn o'ch hunain!

Da iawn i Elis Jones a gystadlodd yn y Rhuban Glas Offerynnol dan 16. Perfformiad arbennig iawn.



Yn perfformio gyda Only Boys Aloud oedd ein disgyblion Glyn, Brynley a Morgan. Cawsom berfformiad arbennig gan y côr. Da iawn chi fechgyn!





Braf iawn oedd gweld cymuned Ysgol Garth Olwg yn perfformio yn y sioe agoriadol Nia Ben Aur ar y nos Sadwrn a'r nos Lun yn y Pafiliwn. Roedd staff, cyn staff, rhieni, disgyblion, cyn-ddisgyblion a chyfeillion Garth Olwg yn rhan o'r perfformiad arbennig. Roedd y sioe yn wefreiddiol a braint o'r mwyaf oedd cael bod yn rhan o gynhyrchiad mor anhygoel.

Cystadleuaeth o safon uchel tu hwnt oedd y gystadleuaeth corau newydd a pherfformiad gwych cawsom gan gôr Partneriaeth Ysgolion Pontypridd. Roedd yn hyfryd gweld disgyblion o'r ysgolion PAP yn dod at ei gilydd i gystadlu. Perfformiad gwych!



Yn ogystal â pherfformiadau ar y Band Stand, gwelsom berfformiadau ar hyd y maes yn ystod yr wythnos. Roedd ein disgyblion yn rhan o'r perfformiad Samba/Jazz Gwasanaeth Cerdd RhCT. Cawsom hefyd berfformiad gan y band Rhyddid, yng Nghaffi Maes B i ddathlu Prosiect RIFF a hefyd perfformiad gan Mari, Anya ac Elliw ar y telynnau yn y Tŷ Gwerin. Criw talentog iawn!



Roedd ein disgyblion a'n staff yn rhan o sgrysiâu difyr ar y maes yn ystod yr wythnos a chawsom nifer o ymwelwyr i'r stondin Ysgolion. Dyma Mali a Greta yn trafod Cymraeg fel pwnc Lefel A a'r ardal leol gyda @ColegCymraeg. Da iawn ferched!



Uchafbwynt arall yn wir oedd gweld y goron, a noddwyd gan yr Ysgol, yn mynd i fachgen lleol. Roedd y seremoni yn un cofiadwy a hyfryd oedd gweld hefyd ein disgyblion yn dawnsio fel rhan o'r seremoni. Da iawn chi ferched!



Bu aelodau o'r Ysgol Isaf yn rhan o'r seremoni Fedal Ryddiaith yn yr wythnos a hyfryd oedd gweld rhywun lleol yn ennill y fedal hefyd! Da iawn i Elen a Nel am ddawnsio mor hyfryd.



Fel y gwelwch, roedd Eisteddfod Pontypridd 2024 yn Eisteddfod lwyddiannus dros ben i Ysgol Garth Olwg! Mae talentau di-ri yn yr ysgol ac rydym yn falch iawn o bawb a oedd wedi perfformio a chymryd rhan. Mae ein diolch ni'n fawr i'r holl staff oedd wedi cynorthwyo'r disgyblion. Diolch yn enwedig i Miss Luned Bedwyr a diolch i Mrs Howard am eu holl waith caled i baratoi ar gyfer yr ŵyl ac am gefnogi'r disgyblion yn ystod wythnos prysur iawn! Bydd gennym atgofion melyn o Eisteddfod anhygoel!



Gweithdy Only Boys Aloud -

Cafodd fechgyn BI7 llawer o hwyl yn y gweithdy Only Boys Aloud. Roedd llawer o ganu a gemau wedi cael eu chwarae ac roedd pawb wedi mwynhau mas draw. Diolch i Iori a James am ddod draw gyda'i egni heintus.

Gŵyl Morfydd Owen

Er mwyn dathlu bywyd y gyfansoddwraig Morfydd Owen cynhaliwyd gŵyl o gwmpas Pontypridd efo llawer iawn o weithgareddau gwahanol wedi'u trefnu.

Roedd Ysgol Garth Olwg yn rhan o'r gyngerdd oedd ar y Dydd Sul a chafwyd



perfformiadau safonol iawn gan Miley Goss a Cadi Desouza. Gwych oedd cael bod yn rhan a diolch i'r merched am berfformiadau mor arbennig.

Gweithdy Cyfansoddi 'Music Theatre Wales'

Diolch yn fawr i 'Music Theatre Wales' am ddod i mewn i rannu gwybodaeth am brosiect cyffrous newydd ynglŷn â chyfansoddi ar gyfer Sioe. Roedd disgyblion Cerddoriaeth TGAU wedi mwynhau'r perfformiad yn ogystal. Cyfle gwych i gael perfformiad byw.



Band rhyddid o'r ysgol

Ysgol Garth Olwg (Parhad)

Sumae Shwmae

Er mwyn dathlu Sumae Shwmae gwnaethom gynnal ychydig o berfformiadau cerddorol er mwyn dathlu'r dydd.

Gwnaeth y Côr a'r unawdwyr berfformio yn y Ganolfan Gydol Oes yn nigwyddiad Cyngor RhCT a gwnaeth y band Rhyddid gynnal gig i flwyddyn 7 i gyd. Gwych oedd cael band o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn perfformio i'r disgyblion. Roedd pawb wedi mwynhau dros ben!

Cogurdd

Roedd 60 o ddisgyblion wedi cymryd rhan yng nghystadlwedd Cogurdd y mis hwn ac roedd hi'n chwip o ddiwrnod! Bu hefyd 14 yn cystadlu yn Poburdd. Dyma'r canlyniadau:

Cogurdd

1af - Elsi Hughes, 2il Eva Jones, 3ydd Chloe Roberts

Poburdd

1af - Phoebe Condon, 2il - Emmett Jones, 3ydd - Elen Ashcroft - Young



CANOLFAN
YR OLWG
CENTRE
Heol Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ

FFAIR NADOLIG
DIGWYDDIAD I'R TEULU!

CEIRW, PAENTIO WYNEBAU, STONDIŅAU, CREFFTAU,
BWYD A DIOD, GROTO SIŅ CORN, ADLONANT,
GWEITHDAI A MWY!

DYDD SADWRN 30AIN TACHWEDD
10.30YB - 3.30YP

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Lluosi Multiply

Dyngos Oedolion yn y Gymuned
Adult Community Learning
RHONDDA CYNON TAF

Gweithdai Torch Nadolig
YR HEN LYFRGELL PORTH

28 TACHWEDD 19:00-21:00
06 RHAGFYR 19:00-21:00
07 RHAGFYR 15:00-17:00

Ymunwch â ni am weithdy Nadoligaidd Cymraeg! Dysgwch sut i greu torch Nadolig o ddefnyddiau tymhorol i fynd gartref gyda chi. Cyfle i ddysgu sgiliau newydd, defnyddio eich Cymraeg a mwynhau gwin poeth a mins pei gyda ffrindiau.

Gweithdy a deunyddiau am ddim ond codir £5 y pen am luniaeth Nadoligaidd. Llefydd cyfyngedig ar gael, archebwch eich lle nawr er mwyn osgoi cael eich siomi.

Am ragor o wybodaeth
gweithgareddau@menteriaith.cymru

Archebwch le

FFYNIANT
BRO
LEVELLING
YR OLWG

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

ELIS JAMES

Yr Olwg
Canolfan Garth Olwg
01443 570075

Tachwedd 14eg

7:30 yh

£15.00

www.bookwhen.com/gartholwg

BeastlyMedia